# Cynllun Rheoli Arfaethedig ar gyfer Pysgodfeydd Dyfnforol Môr Iwerddon ar gyfer dyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr

Dyddiad: 15-05-26

Fersiwn 3.0 – Fersiwn ar gyfer gwirio sillafu, fformat, ffigurau a thablau

DRAFT

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ..... 4
Beth yw Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP)? ..... 5
Pam FMP ar gyfer Pysgod Dyfnforol Môr Iwerddon? ..... 5
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ..... 6
Gweledigaeth ..... 6
Nodau Polisi ..... 6
Sgôp a Phwrpas ..... 7
Cefndir ..... 8
Asesiadau Stoc a MSY ..... 33
Rheoli Pysgodfeydd ..... 36
Ystyriaethau amgylcheddol ..... 43
Polisïau'r FMP ..... 51
Gweithredu, dangosyddion, monitro ac adolygu ..... 62

DRAFT

## Byrfoddau

AFBI – Y Sefydliad Bio-wyddoniaeth Bwyd-Amaeth

$B_{lim}$ – Uchafbwynt Cyfeiriol Biomas

Bpa – Pwynt Cyfeiriol Rhagofalus ar gyfer Biomas Stoc Silio (SSB)

B_trigger – Trothbwynt Cyfeiriol Biomas

CEFAS – Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddoniaeth Dyframaeth

UE – Yr Undeb Ewropeaidd

FMP – Cynllun Rheoli Pysgodfeydd

$F_{MSY}$ – Pwysau pysgota sy'n rhoi'r Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy

GES – Statws Amgylcheddol Da

ICES – Y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr

JFS – Y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd

JNCC – Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

MCRS – Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf

MMO – Y Sefydliad Rheoli Morol

MAPs – Cynlluniau Aml-Flwyddyn

AMG – Ardaloedd Morol Gwarchodedig

MSY – Y Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy

PMFs – Nodweddion Morol Blaenoriaeth

ROI - Gweriniaeth Iwerddon

SNCB – Cyrff Cadwraeth Natur Statudol

SSB – Biomas Stoc Silio

TAC – y Ddalfa Fwyaf a Ganiateir

Y Ddeddf – Deddf Pysgodfeydd 2020

DRAFT

## Crynodeb Gweithredol

Hwn yw'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (y cyfeiriwn ato fel "y FMP") ar gyfer pysgodfeydd Dyfnforol ym Môr Iwerddon, ac mae'n un o 43 cynllun FMP a ddisgrifir yn y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS). Mae'r FMP ar y cyd hwn wedi'i ddatblygu gan yr Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru.

Mae'r FMP hwn yn cyflwyno polisïau i'r pwrpas o gyfrannu at reolaeth gynaliadwy o'r pysgodfeydd dyfnforol sy'n dal cimwch Norwy, penfras, hadog, lleden chwithig a'r lleden goch yn nyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn Is-ardal 7.a ICES. Nid yw'n cynnwys dyfroedd tiriogaethol yr Alban ac Ynys Manaw. Wrth ei ddatblygu, gofynnwyd am gyngor a sylw gan ddiwydiant, gwyddonwyr, rheoleiddwyr, cyrff cadwraeth natur statudol (SNCB) a rhanddeiliaid.

Mae'r FMP yn rheoli 7 o stociau[1] i gyd yn cael eu rheoli gyda'r Undeb Ewropeaidd ac yn cael eu dal mewn pysgodfeydd dyfnforol cymysg ym Môr Iwerddon. Rheolir y cyfleoedd pysgota drwy osod y Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir (TAC). Mae'r rhain, a mesurau rheoli eraill a gytunir arnynt, yn cael eu penderfynu drwy negodi rhyngwladol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) rhwng yr UE a'r DU, wedi'i dywys gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a thrwy gydbwyso ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Disgrifir yr egwyddorion sy'n cael eu dilyn gan y DU ar gyfer negodi pysgodfeydd rhyngwladol yn y JFS o dan adran 4.2.

Ac eithrio hadog, mae digon o dystiolaeth wyddonol ar gael fel bo'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gallu asesu'r dalfeydd mwyaf sy'n gynaliadwy (MSY). Mae'r dystiolaeth ar gyfer hadog wrthi'n cael ei hadolygu. Nid yw'r stociau hyn i gyd yn cael eu pysgota'n unol â'r dalfeydd MSY ar hyn o bryd, a nod y FMP hwn yw sicrhau bod stociau dyfnforol yn cael eu pysgota'n gynaliadwy, gan gydbwyso pysgota sy'n amgylcheddol gynaliadwy yn y tymor hir â budd economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth.

Prif ffocws y FMP hwn yw:

- cyfrannu at gynnal y stoc lleden chwithig ar lefel gynaliadwy
- cyfrannu at adfer a chynnal y stociau gwyniad môr, penfras, hadog, lleden goch a chimwch Norwy ar lefelau cynaliadwy lle bo'n bosib, gan gynnwys ystyried a oes angen rhagofalon pellach i ddiogelu cimwch Norwy (FU 14 a 15).

[1] Ystyrir cimwch Norwy (*Nephrops*) i fod yn ddwy uned weithredol i bwrpas asesu stoc ym Môr Iwerddon (Is-ardal 7a ICES).
Rhywogaeth yw grŵp o organebau sy'n gallu magu o fewn ei gilydd i gynhyrchu epil ffrwythlon. Stoc bysgod yw poblogaeth o bysgod o'r un rhywogaeth sy'n byw mewn ardal ddaearyddol benodol. Gall pysgodfa gyfeirio at y rhan o stoc a dargedir i'w dal mewn ardal ddaearyddol benodol neu'n defnyddio dull pysgota neilltuol.

## Beth yw Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP)?

Dogfen yw FMP sy'n cael ei pharatoi a'i chyhoeddi o dan Ddeddf Pysgodfeydd 2020, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf", ac yn cyflwyno polisïau a ddyluniwyd i adfer neu gynnal un neu fwy o stociau pysgod môr ar lefel gynaliadwy neu gyfrannu at eu hadfer neu gynnal ar lefel gynaliadwy. Mae'n gynllun gweithredu ar sail tystiolaeth sy'n helpu i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Mae'r FMP yn gynllun tymor hir sy'n rhaid ei adolygu a, lle bo angen, ei ddiwygio pob 6 mlynedd o leiaf. Mae'n cyflwyno'r weledigaeth a'r nodau tymor hir ar gyfer y bysgodfa (neu bysgodfeydd), ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli a monitro sydd ei angen i gyflawni'r nodau hyn yn y tymor byrrach.

## Pam FMP ar gyfer Pysgod Dyfnforol Môr Iwerddon?

Mae'r Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS[2]) yn nodi'r meini prawf ar gyfer penderfynu pa stociau i'w cynnwys mewn FMP.

Mae pysgodfeydd dyfnforol Môr Iwerddon o bwysigrwydd economaidd a chymdeithasol mawr i gymunedau arfordirol cyfagos. Er mai'r bysgodfa targedu cimwch Norwy yw'r fwyaf o ran fflyd a glanio pysgod, mae'r rhywogaethau yn y FMP hwn sef cimwch Norwy, penfras, hadog, gwyniad môr, a lledod chwithig a choch i gyd yn cael eu dal gyda'i gilydd mewn gwahanol bysgodfeydd dyfnforol.

Mae gan y stociau wahanol ofynion cadwraeth a defnyddiwyd mesurau cadwraeth technegol yn eang i geisio datrys y broblem o ddalfeydd dieisiau. Y stociau a ddisgrifir yn y FMP hwn yw'r prif rywogaethau, wedi eu dal ym Môr Iwerddon drwy bysgota dyfnforol fel rhywogaeth darged neu sgîl-ddal gysylltiedig. Ni ystyrir pob rhywogaeth sy'n cael ei dal yn y pysgodfeydd dyfnforol, mae ffocws y FMP hwn ar bysgod sydd wedi eu targedu'n hanesyddol, a allai fod o werth economaidd uchel neu a ddaliwyd yn ddieisiau ac a allai gyfrannu at bryder am daflu neu gadwraeth.

Mae'r FMP hwn hefyd yn ystyried polisïau ar faterion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol parhaus sy'n wynebu pysgodfeydd Môr Iwerddon, gan gynnwys cynllunio gofodol morol (gwasgfa ofodol) a gwrthdaro ag ecosystemau.

Drwy nodi'r polisïau y bydd yr awdurdodau polisïau pysgodfeydd cenedlaethol yn eu dilyn yn glir, bwriedir rhoi sicrwydd i bob rhan o'r diwydiant pysgota, pysgotwyr, proseswyr, a defnyddwyr, y rheolir yr adnodd yn gynaliadwy dros y tymor hir.

[2] Pwynt 5.3.2 Y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) - GOV.UK (www.gov.uk)

DRAFT

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r FMP wedi cael ei ddatblygu ar sail cydweithrediad rhwng tair Gweinyddiaeth yn y DU – yr Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ymgysylltu gyda sefydliadau pysgota cenedlaethol a grwpiau rhanddeiliaid.

Roedd gweithgor o randdeiliaid allweddol yn cwrdd yn rheolaidd rhwng 2023 a 2025 i helpu i oleuo a llywio cynnwys y FMP hwn. Enw'r grŵp hwn oedd Gweithgor FMP Dyfnforol Môr Iwerddon ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant pysgota dyfnforol, gweinyddiaethau pysgota perthnasol, gwyddonwyr pysgodfeydd a chyrff eNGO (Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol). Cyflwynodd y Gweithgor sylw ar y nodau arfaethedig gan roi mewnbwn mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd dwyochrog ar wahân dros nifer o fisoedd i gasglu barn a mewnbwn ychwanegol yn ystod y cam cyn-ymgynghori.

Cafodd allbwn Gweithgor FMP Dyfnforol Môr Iwerddon ei adolygu gan Grŵp Cynghori FMP Gogledd Iwerddon, eto'n cynnwys rhanddeiliaid gyda throsolwg ar bob FMP o dan DAERA. Cafwyd mewnbwn hefyd gan Weithgor FMP y DU (FMPWG) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bedwar Awdurdod Pysgodfeydd y DU (Defra a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban).

Bydd adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol hefyd yn helpu i lunio'r FMP terfynol.

## Gweledigaeth

Gweledigaeth y FMP yw bwrw ymlaen gyda rheoli prif bysgodfeydd dyfnforol Môr Iwerddon yn gynaliadwy dros y tymor hir i gynnal neu adfer y stociau i lefelau cynaliadwy.

Yn unol ag amcanion cynaliadwyedd, ecosystem a newid hinsawdd y Ddeddf, golygir hyn i feddwl bod y gwaith o reoli'r pysgodfeydd sy'n pysgota'r stociau a nodir gan y FMP yn "amgylcheddol gynaliadwy yn y tymor hir ac yn sicrhau budd economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth[3]", ar ôl ystyried y gwrthdaro â stociau pysgod eraill a lleihau, lle bo'n bosib, unrhyw effeithiau niweidiol y gallai gweithgareddau pysgota eu cael ar ecosystemau morol a newid hinsawdd.

## Nodau Polisi

Os oes digon o dystiolaeth wyddonol i asesu MSY, rhaid i'r FMP gynnwys polisïau sydd o leiaf yn cyfrannu at adfer neu gynnal y stociau ar lefelau MSY. Ar gyfer stociau

[3] Yn unol ag amcan cynaliadwyedd y Ddeddf.

DRAFT

lle na ellir mesur MSY ar eu cyfer, rhaid i FMP gynnwys polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu eu lefelau a nodi pa gamau sydd angen eu cymryd i gasglu'r dystiolaeth ar gyfer asesu MSY.

I sicrhau y rheolir y pysgodfeydd dyfnforol hyn yn effeithiol, mae'r FMP yn adnabod chwe nod polisi (isod) yn ymwneud â blaenoriaethau rheoli domestig a rhyngwladol. Bydd y nodau hyn yn cael eu goleuo gan ymgynghori cyhoeddus ac yn cael eu blaenoriaethu'n briodol i sicrhau allbynnau realistig a mesuradwy. Cawsant eu drafftio i gwrdd â gofynion adran 6(3)(a) a (b) y Ddeddf (nodau 1 a 2) a pholisïau a ddisgrifir yn y JFS (polisïau 3, 4, 5 a 6). Ar gyfer pob nod polisi, mae'r cynllun yn amlinellu:

- rhesymeg;
- camau gweithredu parhaus, tymor byr a / neu dymor hir priodol;
- sut y mae'r camau gweithredu'n helpu i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

Y nodau polisi yw:

- Nod Polisi 1: Cynaeafu'r stoc lleden chwithig yn gynaliadwy, ar lefel sy'n gymesur â'r Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy.
- Nod Polisi 2: Cynaeafu stociau penfras, gwyniad môr, hadog, lleden goch a chimwch Norwy'n gynaliadwy er mwyn cyfrannu at adfer a chynnal y biomas ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY.
- Nod Polisi 3: Cefnogi'r gwaith o werthuso effaith datblygiadau eraill sy'n effeithio ar gynefinoedd morol ar stociau pysgod a fflydoedd pysgota.
- Nod Polisi 4: Cefnogi'r gwaith o reoli ecosystemau'n gynaliadwy drwy leihau effaith pysgodfeydd dyfnforol Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol.
- Nod Polisi 5: Cefnogi cynnydd tuag at bysgota cynaliadwy drwy wneud y mwyaf o unrhyw fudd economaidd a chymdeithasol.
- Nod Polisi 6: Lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i newid hinsawdd.

Trafodir dangosyddion perfformiad ar gyfer y FMP yn yr adran Monitro.

## Sgôp a Phwrpas

Mae'r FMP hwn yn disgrifio polisïau er mwyn cyfrannu at reolaeth gynaliadwy o'r stociau sydd wedi eu hadnabod yn nyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr Is-ardal 7.a ICES, a'r pysgodfeydd dyfnforol sy'n pysgota'r stociau hyn. Nid yw hyn yn cynnwys dyfroedd tiriogaethol yr Alban ac Ynys Manaw.

O dan Ddeddf 2020, rhaid i'r awdurdod neu awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi cynlluniau FMP yn unol â'r rhestr a'r amserlen yn y JFS.[4] Yr awdurdodau perthnasol ar gyfer y FMP hwn yw DAERA, Defra a Llywodraeth Cymru.

Paratowyd a chyhoeddwyd y FMP hwn gan yr awdurdodau perthnasol i bwrpas y Ddeddf, yn unol â'r polisïau a'r cynigion yn y JFS.

# Cefndir

## Lleoliad

Mae Is-ardal 7.a ICES[5] Môr Iwerddon yn fasn môr eithaf caeedig wedi'i leoli rhwng Iwerddon / Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Mae wedi'i gysylltu i'r Môr Celtaidd (7.g) yn y de gan Sianel San Siôr, ac wedi'i gysylltu i Orllewin yr Alban (6.a) yn y Gogledd gan Sianel y Gogledd.


Mae'r FMP hwn yn berthnasol i ddyfroedd Is-ardal 7.a ICES Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Nid yw'n cynnwys dyfroedd tiriogaethol yr Alban (Parth yr Alban), Ynys Manaw na Gweriniaeth Iwerddon (Parthau EEZ yr UE). Nid yw'n cynnwys dyfroedd na physgodfeydd yn Strangford Lough.

DRAFT

[4] Llywodraeth y DU (2022) Y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd. Cyflwynir yr amserlen ddiweddaraf yn Atodiad A (diwygiedig) (diwygiwyd Rhagfyr 2024)
[5] Y Pwyllgor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr.

# Fig.1 International Council for the Exploration of the Sea (ICES) Subarea 7.a

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers





For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.
Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026.
Source data: International Council for the Exploration of the Sea, ICES spatial framework data.
Basemap: Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS

Fig. 2 The Irish Sea Demersal Fisheries Management Plan Area

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.
Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026. Source data: United Kingdom, Overseas Territories and Crown Dependencies Limits and Boundaries Dataset, UK Hydrographic Office, 19 January 2023, licensed under the Open Government Licence v3.0. Office for National Statistics, Countries (December 2021) Boundaries GB BGC, contains Ordnance Survey and ONS Intellectual Property Rights. European Environment Agency, EEA coastline for analysis, polygon, version 3.0, March 2017, copyright and reuse subject to source terms. International Council for the Exploration of the Sea, relevant ICES spatial framework data. Basemap: Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS, United Kingdom Hydrographic Office
customerservices@ukho.gov.uk

## Stociau wedi eu cynnwys yn y FMP hwn

Mae'r cynllun hwn yn trafod y stociau canlynol, sy'n cael eu disgrifio a'u hasesu gan ICES i fod o fewn ffiniau Is-ardal 7.a Môr Iwerddon[6].


- Hadog (*Melanogrammus aeglefinus*) yn Is-ardal 7.a (Môr Iwerddon) (had.27.7.a)
- Penfras (*Gadus morhua*) yn Is-ardal 7.a (Môr Iwerddon) (cod.27.7.a)
- Gwyniad môr (*Merlangius merlangus*) yn Is-ardal 7.a (Môr Iwerddon) (whg.27.7.a)
- Lleden goch (*Pleuronectes platessa*) yn Is-ardal 7.a (Môr Iwerddon) (ple.27.7.a)
- Lleden chwithig (*Solea solea*) yn Is-ardal 7.a (Môr Iwerddon) (Sol.27.7.a)
- Cimwch Norwy (*Nephrops norvegicus*) yn Is-ardal 7.a, Uned Weithredol 14 (Dwyrain Môr Iwerddon) a 15 (Gogledd Môr Iwerddon) – y cyfeirir atynt fel *Nephrops*. (Nep.fu.14 a Nep.fu.15)

Mae'r stociau penfras, gwyniad môr, lledod coch a chwithig a hadog wedi eu dosbarthu ar draws Môr Iwerddon. Mae stociau cimwch Norwy'n gysylltiedig ag ardaloedd cynefin mwd benthig ac mae dwy brif ardal o'r rhain ym Môr Iwerddon. Mae ICES yn asesu cimwch Norwy mewn nifer o unedau ar wahân, digyswllt i raddau helaeth. Mae ICES yn dynodi'r rhain fel Unedau Gweithredol (FU), a FU 14 a 15 sy'n berthnasol i Fôr Iwerddon (Ffigwr 3).

[6] Gan nodi bod ICES yn priodoli penfras, gwyniad môr a hadog yn hirsgwariau ystadegol 33E2 a 33E3 ICES i stociau'r Môr Celtaidd.

# Fig.3 ICES Nephrops Functional Units in Subarea 7.a

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.

Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION


Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026. Source data: United Kingdom, Overseas Territories and Crown Dependencies Limits and Boundaries Dataset, UK Hydrographic Office, 19 January 2023, licensed under the Open Government Licence v3.0. Office for National Statistics, Countries (December 2021) Boundaries GB BGC, contains Ordnance Survey and ONS Intellectual Property Rights. European Environment Agency, EEA coastline for analysis, polygon, version 3.0, March 2017, copyright and reuse subject to source terms. International Council for the Exploration of the Sea, relevant ICES spatial framework data. Basemap : Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS, United Kingdom Hydrographic Office
customerservices@ukho.gov.uk

Mae Ffigwr 4 isod yn dangos pa mor eang yw'r cynefin mwd ym mhob un o'r ardaloedd FU hyn. Er efallai bod peth pysgota'n digwydd y tu allan i'r ardaloedd hyn, mae hwn mwy neu lai'n diffinio ffiniau ffisegol y bysgodfa sy'n targedu cimwch Norwy.

DRAFT

# Fig.4 Nephrops Grounds and Functional Units in Subarea 7.a

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.
Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026. Source data: United Kingdom, Overseas Territories and Crown Dependencies Limits and Boundaries Dataset, UK Hydrographic Office, 19 January 2023, licensed under the Open Government Licence v3.0. Office for National Statistics, Countries (December 2021) Boundaries GB BGC, contains Ordnance Survey and ONS Intellectual Property Rights. European Environment Agency, EEA coastline for analysis, polygon, version 3.0, March 2017, copyright and reuse subject to source terms. International Council for the Exploration of the Sea, relevant ICES spatial framework data. Agri-Food and Biosciences Institute, layer derived from raw data, copyright, and reuse subject to source terms. Basemap: . Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS, United Kingdom Hydrographic Office customerservices@ukho.gov.uk

# Trosolwg ar y Stociau

## Penfras Môr Iwerddon – *Gadus morhua*

**Cod stoc ICES: cod.27.7.a**
**Ardal y stoc: Is-ardal 27.7.a,** (ac eithrio hirsgwariau 33E2 a 33E3)

Mae stoc penfras Môr Iwerddon wedi dirywio'n sylweddol ers dechrau'r 1990au, yn gysylltiedig â llai o recriwtio. Mae'r stoc wedi cael ei rheoli o dan y mesurau cadwraeth penfras ers 2000, sy'n cynnwys pennu dalfa a ganiateir fach i ganiatáu ar gyfer sgîl-ddal na ellir ei osgoi, ardal dan waharddiad yn ystod y tymor silio, yn ogystal â mesurau technegol (gw. adran 4).

Mae pwysau pysgota ar y stoc yn isel (o dan y $F_{MSY}$), ac ar hyn o bryd ni chaniateir unrhyw bysgota masnachol sy'n targedu penfras ym Môr Iwerddon. Caniateir glanio penfras wedi'i sgîl-ddal mewn pysgodfeydd eraill, sy'n digwydd yn bennaf mewn pysgodfeydd sy'n targedu cimwch Norwy a physgod asgellog eraill (ca. 91t yn 2024 – glanio a thaflu). Mae pysgodfa hamdden ar gyfer penfras, ac er na wyddom i sicrwydd eto faint sy'n cael eu dal, mae ICES yn credu bod hyn ond yn cael mân effaith ar y cyngor.

Ystyrir bod tymheredd Môr Iwerddon o gwmpas yr uchaf y gall penfras ei oddef ac mae cynhyrchedd penfras Môr Iwerddon wedi lleihau ers y 1990au, sy'n cyd-fynd â chynnydd yn nhymheredd y môr (Bentley *et al.*, 2021[7]). Mae dwy brif ardal silio ar gyfer penfras Môr Iwerddon, yn Nwyrain a Gogledd Môr Iwerddon. Gwneir arolygon blynyddol i fonitro tueddiadau o ran niferoedd wyau a larfau, sydd wedi bod yn eithriadol isel yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan benfras Môr Iwerddon strwythur oed byr a thwf cyflym, sy'n cael ei ystyried i fod yn nodweddiadol o stociau gyda bywyd cymharol fyr. Fel arfer mae'r oedolion yn y dyfroedd oerach, dyfnach. Yn ystod y dydd maen nhw'n ffurfio'n ysgolion a nofio tua 30-80m uwchben y gwaelod, gan wasgaru wedi nos i fwydo. Maen nhw'n hollysol (bwyta pob dim), gan fwydo wrth i'r haul godi neu fachlud ar greaduriaid di-asgwrn cefn a physgod, gan gynnwys eu hepil eu hunain (Cohen et al. 1990[8]).

Mae'r oedolion yn mudo rhwng ardaloedd silio, bwydo a gaeafu a dangosodd astudiaethau tagio a micro-gemegol diweddar fod penfras Môr Iwerddon yn mudo rhwng ardaloedd stoc cyfagos (Is-ardaloedd 6a a 7g ICES). Ni wyddom yn iawn pa mor aml y maen nhw'n symud na pham.

---

[8] Cohen, D., T. Inada, T. Iwamoto a N. Scialabba 1990. "FAO species catalogue. Vol. 10. Gadiform fishes of the world (Order Gadiformes). Catalog gyda nodiadau a darluniau o bysgod penfras, cegddu, grenadwr a physgod gadoid eraill sy'n hysbys i'r data." FAO Fisheries Synopsis(125): 452



DRAFT

Asesir y stoc yma gan ICES yn defnyddio asesiad categori 1 ar sail oed ac mae'r cyngor gwyddonol yn dilyn y dull MSY. Mae'r asesiad yn ymgorffori gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys Arolygon Chwarteri 1 a 4 Pysgod Môr-waelod Gogledd Iwerddon (AFBI[9]), Arolwg Partneriaeth Gwyddoniaeth Pysgodfeydd UKFSP (AFBI a phartneriaid diwydiant) a data dalfeydd masnachol. Ar sail asesiad 2025, ystyrir bod biomas y stoc silio (SSB) o dan y $B_{lim}$, a'r pwysau pysgota (F) o dan y $F_{MSY}$

## Hadog Môr Iwerddon – *Melanogrammus aeglefinus*

**Cod stoc ICES: had.27.7.a**
**Ardal y stoc: Is-ardal 27.7.a,** (ac eithrio hirsgwariau 33E2 a 33E3)

Rhwng canol y 2010au a 218, tyfodd stoc hadog Môr Iwerddon yn gryf ar ôl recriwtio sylweddol yn 2013 a 2015. Ers 2020, mae maint y stoc wedi dirywio, yn gysylltiedig â blynyddoedd recriwtio isel yn 2020, 2022 a 2023. Nodweddir stociau hadog yn aml gan recriwtio sylweddol ac afreolaidd, hyd yn oed pan fydd lefel y stoc silio'n isel, gyda chyfnodau tebyg o recriwtio isel wedi'i nodi'n flaenorol. Er y dirywiad diweddar, yn y cyngor gan ICES ar gyfer 2025, arhosodd y biomas SSB uwchlaw'r pwyntiau cyfeiriol ($B_{trigger}$, $B_{pa}$, a $B_{lim}$), ac roedd pwysau pysgota ar y stoc yma wedi bod o dan y $F_{MSY}$ ers 2013. Mae'r asesiad hadog yn ymgorffori gwybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau gan gynnwys Arolygon Chwarteri 1 a 4 Pysgod Môr-waelod Gogledd Iwerddon (AFBI), Arolwg Partneriaeth Gwyddoniaeth Pysgodfeydd (AFBI a phartneriaid diwydiant) a data dalfeydd masnachol.

Tan 2025, roedd y stoc yma'n cael ei hasesu gan ICES yn defnyddio asesiad categori 1 ar sail oed[10] yn dilyn y dull MSY. Cafodd anghysondebau yn y data mewnbwn i'r asesiad ei adnabod ar gyfer asesiad 2026. Nid oedd digon o amser i ICES gwblhau cyngor sicrwydd ansawdd diwygiedig, yn hytrach cafodd y cyngor ei ddiraddio o gategori 1 i gategori 5.

Roedd y cyngor categori 5 hwn, a ryddhawyd yn Nhachwedd 2025, yn defnyddio dull rhagofalus ar gyfer dalfeydd cyfartalog rhwng 2022 a 2024. Ni allai ICES asesu statws stoc a physgota yn erbyn y MSY neu'r pwyntiau cyfeiriol dull rhagofalus (PA) oherwydd bylchau tystiolaeth yn y data, gan gynnwys pryderon am ddosbarthiad yr arolwg a newid yn y patrymau pysgota.

Mae ICES yn bwriadu gwneud asesiad meincnod llawn o hadog Môr Iwerddon ar gyfer cylch meincnod 2027–2028. Disgwylir i'r asesiad diwygiedig ategu'r cyngor o 2029 ymlaen.

[9] Y Sefydliad Bio-wyddorau Bwyd-Amaeth – cynghorydd gwyddonol i DAERA
[10] Y Rhaglen Asesu Strwythurau Oed

DRAFT

Ar hyn o bryd, rheolir hadog Môr Iwerddon drwy'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir (TAC), gan ddilyn cyngor gwyddonol ICES ar ddalfeydd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf mae dalfeydd hadog wedi bod yn gyson o dan y dalfeydd TAC a gytunwyd am resymau economaidd (ansawdd a gwerth). Ystyrir bod y gêr pysgota hynod ddethol, a'r mesurau rheoli amser pysgota a rheoli gofodol a gyflwynwyd i leihau pwysau pysgota ar benfras a gwyniad y môr wedi rhoi rhai canlyniadau da dethol i bysgodfa hadog Môr Iwerddon. Mae ardal wedi'i chau yn ei lle yng Ngorllewin Môr Iwerddon rhwng 15 Chwefror a'r 30 Ebrill i gyd-ddigwydd â phrif gyfnod silio penfras Môr Iwerddon. Gwneir eithriadau ar gyfer y bysgodfa hadog er eu bod yn dibynnu ar fesurau rheoli ychwanegol i gyfyngu sgîl-ddal penfras. (gw. yr adran Mesurau Cadwraeth Technegol).

Mae stoc hadog Môr Iwerddon wedi'i dosbarthu'n bennaf yng ngorllewin a de Ynys Manaw, gan ffafrio'r sediment gwely môr mwy bras o gwmpas ymyl dyfroedd mwdlyd cimwch Norwy, sydd gyda thymheredd fel arfer rhwng 4° a 10°C. Mae silio'n digwydd rhwng Chwefror a Mai ym Môr Iwerddon, gyda'r brif ardal silio yng ngorllewin Môr Iwerddon. Cyflawnir arolygon wyau a larfae blynyddol i fonitro tueddiadau gyda recriwtio niferoedd wyau a larfau, ynghyd ag arolygon pysgod aeddfed yn y gwanwyn a'r hydref. Mae'r larfae a'r pysgod ifanc yn bwydo ar fân-gramenogion a rhywogaethau *nauplii* cyn symud ymlaen at gramenogion (Rowlands et al. 2008). Mae'r oedolion yn bwydo'n bennaf ar organebau bach sy'n byw ar y gwaelod gan gynnwys cramenogion, molysgiaid, ecinodermau, genwair a physgod.

## Cimwch Norwy (Unedau Gweithredol 14 a 15) - *Nephrops norvegicus*

**Cod stoc ICES: nep.fu.14 a nep.fu.15**
**Ardal y stoc: Uned Weithredol 15 – Gorllewin Môr Iwerddon, ac Uned Weithredol 14 – Dwyrain Môr Iwerddon.**

Mae'r bysgodfa cimwch Norwy ym Môr Iwerddon yn gweithredu'n bennaf mewn dwy ardal fawr o gynefin mwd cimwch Norwy yng ngogledd-orllewin (FU15 – Gorllewin Môr Iwerddon) a dwyrain Môr Iwerddon (FU14 – Dwyrain Môr Iwerddon) – gw. Ffigwr 4. Mae pysgodfa Môr Iwerddon yn gweithredu'n bennaf yng ngogledd-orllewin Môr Iwerddon, gyda > 90% o'r pysgod sy'n cael eu glanio'n cael eu dal yn FU 15. Mae cyfran lai'n cael eu dal yn nwyrain Môr Iwerddon (FU 14) a glaniadau y tu allan i'r ddwy uned FU yma'n cyfrannu <1% at laniadau'r holl fflydoedd sy'n pysgota cimwch Norwy yn Is-ardal 7.a ICES.

Asesir digonedd cimwch Norwy yn y ddwy FU drwy ffilmio gyda chamerâu tanddwr gyda thwneli tyrchu cimwch Norwy'n cael eu cyfrif yn flynyddol yng Ngorffennaf / Awst. Yn flaenorol, roedd digonedd cimwch Norwy yn FU15 yn eithaf sefydlog ac uwchlaw pwyntiau cyfeiriol biomas ICES ar draws y cyfnod asesu (2003-2022) ond bellach o



DRAFT

dan y pwynt cyfeiriol biomas $B_{trigger}$. Yn FU14, mae digonedd cimwch Norwy wedi dirywio ers 2022 ac o dan y pwynt cyfeiriol biomas $B_{trigger}$. Mae pwysau pysgota yn y ddwy FU o dan y $F_{MSY}$.

Ar adeg drafftio’r adroddiad hwn, mae pryderon am y cyngor diweddar ar gyfer FU15, a bydd asesiad 2026 yn adolygu unrhyw bryderon ansawdd fel mater o drefn.

Er bod yr asesiad a’r cyngor ar lefel FU, cyflwynir un TAC ar gyfer cimwch Norwy ar gyfer Is-ardal 27.7. I sicrhau bod stociau cimwch Norwy’n cael eu cynaeafu’n gynaliadwy, mae ICES yn argymell rheoli’r stoc ar lefel FU. Mae cimwch Norwy’n cael eu dal fel rhan o bysgodfa gymysg gyda physgod dyfnforol, felly mae mesurau technegol ar gyfer stociau eraill, fel Mesurau Cadwraeth Môr Iwerddon[11] hefyd yn effeithio ar y bysgodfa hon.

Cyfyngir cimwch Norwy i gynefin mwdlyd ac mae arnynt angen sediment yn cynnwys rhwng 10–100% o waddod a chlai i dyllu eu twneli, sy’n golygu mai dosbarthiad sediment addas sy’n penderfynu dosbarthiad y rhywogaeth. Ychydig iawn y mae cimwch Norwy aeddfed yn symud (ambell i 100m), ond gall larfae drosglwyddo rhwng gwahanol lecynnau mwd mewn rhai ardaloedd. Pysgod nosol yw cimwch Norwy’n bennaf gan fwydo ar falurion, cramenogion a genwair. Oes arferol *N. norvegicus* yw 5–10 mlynedd gan gyrraedd 15 mlynedd mewn achosion eithriadol. Mae dodwy wyau’n digwydd yn hwyr yn yr haf neu ar ddechrau’r hydref.

Ar ôl silio, mae’r pysgod benyw wyog (yn cario wyau) yn aros yn eu twneli tan ddiwedd y cyfnod deori. Mae deori’n digwydd yn hwyr yn y gaeaf neu ar ddechrau’r gwanwyn. O’i gymharu ag unedau gweithredol cimwch Norwy eraill yn Is-ardal 7, poblogaeth gorllewin Môr Iwerddon (FU15) oedd yr un fwyaf dwys o’r holl stociau. Mae hyn wedi’i gysylltu i lefel uchel o gynhyrchu larfae a chadw cryf oherwydd cerrynt gorllewin Môr Iwerddon (Hill et al. 1996). Ychydig iawn o dystiolaeth wyddonol sydd bod stociau dwyrain a gorllewin Môr Iwerddon yn cymysgu oherwydd natur symudiadau’r cerrynt, ac edrychir arnynt fel poblogaethau ar wahân.

DRAFT

## Lleden Goch Môr Iwerddon – Pleuronectes platessa

**Cod stoc ICES: ple.27.7.a**
**Ardal y stoc: Is-ardal 27.7.a**

Ar ôl uchafbwynt yng nghanol y 2010au, dirywiodd fiomas lleden goch Môr Iwerddon yn ddifrifol oherwydd recriwtio gwael o 2015 ymlaen. Ar ôl dirywio’n arw yn y 5 mlynedd diwethaf, credir fod SSB y lleden goch bellach o dan y $B_{trigger}$ a rhwng $B_{pa}$ a $B_{lim}$ y MSY, ac mae’r pwysau pysgota ar y stoc yma wedi bod o dan y $F_{MSY}$ ers 2008 ond wedi

[11] A gyflwynir drwy amodau trwydded neu o dan Reoliad UE 2019/2239 wedi’i gymhathu

cynyddu'n ddiweddar i ychydig o dan y $F_{MSY}$. Amcangyfrifodd ICES fod cyfanswm y dalfeydd o leden goch yn y gwahanol bysgodfeydd wedi bod yn sylweddol o dan y dalfeydd TAC a gytunwyd ers 2018. Mae ICES yn amcangyfrif bod 70% o'r holl ddalfeydd wedi eu taflu (cyfartalog, 2020-2024).

Mae lledod coch yn cael eu dal yn bennaf drwy sgîl-ddal fel rhywogaeth ddi-darged mewn pysgodfeydd lledod chwithig ym Môr Iwerddon, a'r rhan fwyaf yn cael eu taflu (61% ar gyfartaledd rhwng 2004-2023). Amcangyfrifir bod 40% o ledod coch a daflir yn goroesi (Catchpole et al. 2015), ac mae eithriad *de minimis* ar daflu'r stoc yma i'r môr.

Ystyrir bod gan y stoc lleden goch ym Môr Iwerddon dair ardal silio'n bennaf, wrth ymyl arfordir Iwerddon, i'r gogledd-ddwyrain o Ynys Manaw i gyfeiriad arfordir Cumbria, ac oddi ar arfordir Gogledd Cymru (Fox et al., 1997). Mae ardaloedd silio llai eraill hefyd wedi eu hadnabod ym Mae Ceredigion oddi ar arfordir Cymru. Mae lledod coch Môr Iwerddon yn dechrau silio yn Rhagfyr a'r silio yn ei anterth rhwng canol Chwefror a chanol Mawrth, cyn gorffen cynhyrchu wyau erbyn diwedd Ebrill (Fox et al. 2009)

Er eu hasesu fel stociau ar wahân, dengys astudiaethau tagio fod stociau lleden goch ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd yn cymysgu wrth silio (Dunn a Pawson, 2002[12]; Fox et al. 2009). Mae lledod coch aeddfed yn byw ar sedimentau cymysg, mwd a thywod, gyda physgod hŷn mewn dyfroedd dyfnach; sylwyd ar unigolion llai yn y sedimentau tywodlyd mewn dyfroedd glannau bas (Frimodt, 1995[13]).

Mae ICES yn darparu asesiad categori 1 ar sail oed[14] , gyda'r cyngor yn seiliedig ar y dull MSY. Mae'r asesiad yn ymgorffori gwybodaeth o sawl ffynhonnell gan gynnwys Arolwg Treillrwydi Trawst y DU (CEFAS) ac Arolygon Chwarteri 1 a 4 Pysgod Môr-waelod Gogledd Iwerddon (AFBI), a data dalfeydd masnachol.

## Lleden Chwithig Môr Iwerddon – *Solea solea*

**Cod stoc ICES: sol.27.7.a**
**Ardal y stoc: Is-ardal 27.7.a**

Mae lleden chwithig Môr Iwerddon wedi cynyddu ar ôl cyfnod o drai rhwng canol y 2000au a 2017 a bellach uwchlaw pob pwynt cyfeiriol biomas ($B_{trigger}$ MSY, $B_{pa}$, a $B_{lim}$) ar sail yr asesiad diweddaraf gan ICES (2025). Mae pwysau pysgota (F) o dan y $F_{MSY}$.

[12] Dunn, M.R., a Pawson, M.G. 2002.The stock structure and migrations of plaice populations on the west coast of England and Wales. J. Fish. Biol. 61:360–393

[13] Frimodt, C. (1995). Multilingual illustrated guide to the world's commercial coldwater fish, Fishing News Books Ltd.

[14] Model Asesu Gofod Cyflyrau

DRAFT

Mae pysgota'r stoc yma wedi cynyddu'n nodedig ers 2018, ar ôl cynnydd yn nigonedd y stoc a chyngor uwch gan ICES i adlewyrchu hynny.

Rheolir pysgota lleden chwithig gan TAC a mesurau technegol. Cychod treillrwyd drawst o wlad Belg sy'n pysgota'r stoc yma'n bennaf (86% o'r pysgod a laniwyd yn 2024). Mae ystod o fesurau gêr technegol yn eu lle, yn benodol rhaid i gychod treillrwyd drawst gwlad Belg gyda dellt rhwng 80–119mm ddefnyddio 'Panel Fflandrys' i bysgota'n fwy detholus.

Mae eithriad *de minimis* hefyd yn ei le i ganiatáu taflu lledod chwithig rhy fach yn Is-ardal 7.a. Dengys asesiadau diweddar gan ICES fod rhai fflydoedd wedi cam-adrodd dalfeydd yn ardal y stoc yma ac ardaloedd stociau cyfagos.

Mae lledod chwithig i'w cael ar draws Môr Iwerddon ac yn fwy toreithiog mewn dyfnderoedd o lai na 60m. Mae silio'n digwydd mewn dyfroedd arfordirol bas a physgod ifanc hyd at 3 oed i'w cael mewn baeau arfordirol a meithrinfeydd cyn mudo i ddyfroedd dyfnach. Mae'r oedolion fel arfer ar ben eu hunain gan gladdu eu hunain yn rhannol mewn tywod neu fwd yn ystod y dydd. Mae'r oedolion yn bwydo ar folysgiaid, genwair a chramenogion bach. Mae atgenhedlu'n dechrau ar ôl 3-5 oed pan fo'r pysgod rhwng 25-30cm o hyd. Dengys astudiaethau tagio a genetig o ledod chwithig ym Môr Iwerddon a Môr Hafren recriwtio lleol yn bennaf a dim llawer o symud y tu allan i'r ardaloedd a reolir (Horwood, 1993).

Mae asesiad ICES yn defnyddio asesiad categori 1 strwythur oed ar sail glaniadau[15], a'r cyngor yn dilyn y dull MSY. Mae'r asesiad yma'n ymgorffori gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Arolwg Treillrwydi Trawst Ch3 y DU (CEFAS), un mynegai biomas masnachol, a data dalfeydd a glaniadau masnachol.

## Gwyniad Môr Iwerddon – *Merlangius merlangus*

**Cod stoc ICES: whg.27.7.a**
**Ardal y stoc: Is-ardal 27.7.a, (**ac eithrio hirsgwariau 33E2 a 33E3)

Dirywiodd wyniad Môr Iwerddon yn arw yn yr 1980au a'r 1990au ac mae'r SSB wedi bod o dan $B_{trigger}$, $B_{pa}$ a $B_{lim}$ y MSY ers canol y 1990au. Amcangyfrifir bod y pwysau pysgota uwchlaw $F_{MSY}$ a $F_{pa}$. Roedd y cyngor dalfeydd ar gyfer gwyniad Môr Iwerddon Catch yn sero rhwng 2001 a 2025. Arweiniodd meincnod ICES o'r stoc yn 2025[16] at newid dull yr asesu a phwyntiau cyfeiriol newydd ar gyfer y stoc yma.

[15] Y Model Asesu Gofod Cyflyrau
[16] Gweithdy Meincnodi ar Stociau Penodol ym Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd (WKBNSCS) -Y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr

DRAFT

Ni chaniateir pysgodfa fasnachol sy'n targedu gwyniad môr ym Môr Iwerddon. Mae gwyniad môr yn cael ei sgîl-ddal yn bennaf mewn pysgodfeydd cymysg sy'n targedu cimwch Norwy'n bennaf. Gwelir ychydig o wyniad môr yn cael eu sgîl-ddal mewn pysgodfeydd pelagig. Mae'r rhan fwyaf o'r ddalfa gwyniad môr o dan y Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf (MCRS), neu o werth economaidd bach iawn ac fel arfer yn cael eu taflu yn y bysgodfa cimwch Norwy.

Ers 2022, mae ICES wedi cyhoeddi ystyriaethau pysgodfeydd cymysg blynyddol sy'n integreiddio cyngor ar stociau sengl â modelau lefel fflyd i gyfrif am rywogaethau sy'n cael eu dal mewn pysgodfeydd cymysg. Gellir defnyddio'r rhagolygon wrth osod dalfeydd TAC, er enghraifft i atal gorbysgota stociau sgîl-ddal bregus fel gwyniad môr neu i atal sefyllfaoedd "tagu" lle y mae un cwota'n cyfyngu eraill. Ni chyflwynodd ICES ystyriaethau pysgodfeydd cymysg ar gyfer 2026 oherwydd problem gydag asesiad hadog Môr Iwerddon. Mae mesurau technegol yn eu lle fel rhan o Fesurau Cadwraeth Môr Iwerddon hefyd yn debygol o effeithio'n gadarnhaol i raddau ar lefelau taflu gwyniad môr.

Mae gwyniad Môr Iwerddon wedi'i ddosbarthu'n eang ar draws Môr Iwerddon, yn bennaf ar waelodion mwd a gro, ond hefyd ar dywod a chraig, rhwng 30m a 100m. Mae gwyniad môr yn silio yn y gwanwyn ar draws dwyrain Môr Iwerddon ac yn nyfroedd arfordirol gorllewin Môr Iwerddon. Mae hyn yn cael ei fonitro drwy arolygon wyau a larfae blynyddol, a data ar ddosbarthiad pysgod ar ganol silio sy'n cael eu dal yn ystod yr arolygon treillrwydi ym mis Mawrth.

Mae gwyniad môr yn mynd yn gefnforol o ddiwedd yr haf ymlaen, ac i'w cael ar draws gorllewin Môr Iwerddon er bod y boblogaeth fwyaf dwys i bob golwg o gwmpas ymylon y llecyn mwd mewn dyfroedd arfordirol ac ar hyd y ffin ddeheuol rhwng Iwerddon ac Ynys Manaw. Mae gan wyniad môr ddiet eang o grancod, berdys, molysgiaid, pysgod bychain, genwair *polychaeta* a cheffalopodiaid.

Aseswyd y stoc gan ICES yn 2025 fel categori 1, yn defnyddio asesiad dadansoddi ar sail oed ac mae'r cyngor yn dilyn y dull MSY. Mae'r asesiad yn ymgorffori gwybodaeth o sawl ffynhonnell gan gynnwys Arolygon Chwarteri 1 a 4 Pysgod Gwaelod y Môr Gogledd Iwerddon (AFBI), arolwg wyau a larfae yn y gwanwyn, a data dalfeydd masnachol.

## Ehangder y FMP a physgodfeydd

Nid yw ehangder daearyddol y FMP hwn yn cyd-fynd â dosbarthiad daearyddol y stociau. Mae'r stociau'n bresennol (ac yn cael eu pysgota) o fewn ffiniau awdurdodaethau eraill (e.e. yn nyfroedd Gweriniaeth Iwerddon, yr Alban ac Ynys

DRAFT

Manaw). Gall y pysgodfeydd sy'n targedu'r stociau dyfnforol hyn (a'r sgîl-ddal cysylltiedig) weithredu, gyda rhai cyfyngiadau, ar draws y ffiniau awdurdodaethol hyn.

Er bod angen i gynlluniau FMP roi sylw i gynaliadwyedd stociau ar lefel stoc, ar gyfer y FMP hwn gallwn ond rheoli gweithgareddau pysgota'n uniongyrchol o fewn ardal y FMP. Rhaid cydnabod hyn wrth ddatblygu unrhyw weithredu, a gallai bysgota ar y stoc y tu allan i gylch gwaith y cynllun hwn amharu ar effeithiolrwydd unrhyw weithredu.

## Materion trawsffiniol

Mae 7.a ICES hefyd yn cynnwys dyfroedd Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon felly ystyrir bod y 6 rhywogaeth yn y Cynllun hwn yn stociau wedi eu rhannu. Mae'r ardaloedd hyn dan wahanol awdurdodaethau deddfwriaethol ac mae cychod pysgota, yn gynyddol, yn dod o dan wahanol gyfundrefnau rheoli, gan gynnwys mathau o gêr, gofynion trwyddedu ac adrodd a bod angen cael REM[17].

## Mynediad at ddyfroedd Ynys Manaw

Os yw cychod pysgota Prydain eisiau pysgota ym môr tiriogaethol Ynys Manaw, rhaid cael trwydded pysgota môr Ynys Manaw gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd ac Amaethyddiaeth, DEFA (Llywodraeth Ynys Manaw). Mae cyfleoedd pysgota (fel cwotâu dalfeydd) a ddefnyddir ym môr tiriogaethol Ynys Manaw'n cael eu cyfrif tuag at faint sy'n manteisio ar gyfleoedd pysgota'r DU.

Rhaid i bysgota sy'n digwydd ym môr tiriogaethol Ynys Manaw gydymffurfio ag amodau trwydded pysgota môr Ynys Manaw a deddfwriaeth o dan Ddeddf Pysgodfeydd 2012 (Deddf Tynwald). Mae mesurau cadwraeth technegol penodol mewn grym ym môr tiriogaethol Ynys Manaw o dan Is-ddeddfau Pysgodfeydd Môr (Mesurau Technegol) 2000, eto drwy Ddeddf Pysgodfeydd 2012.

Am fwy o fanylion am y trefniadau mynediad a rheoli rhwng y DU ac Ynys Manaw, dylid cyfeirio at y Memorandwm Dealltwriaeth Llywodraeth Ynys Manaw - Memorandwm Dealltwriaeth (MoU) Rheoli Pysgodfeydd Ynys Manaw-DU

## Gweriniaeth Iwerddon

Mae Gweriniaeth Iwerddon (ROI) yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae mynediad dwyochrog at rai ardaloedd yn nyfroedd tiriogaethol ei gilydd ym Môr Iwerddon. O dan y TAC, rhaid i gychod pysgota'r UE yn nyfroedd y DU gydymffurfio â mesurau'r DU, a rhaid i gychod y DU sy'n pysgota yn nyfroedd yr UE hefyd gydymffurfio â mesurau'r UE.

Yn hanesyddol mae gan Ogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon drefniant mynediad rhwng ei gilydd i ganiatáu pysgota ym mharthau 0-6nm ei gilydd, sef y trefniant

[17] Monitro Electronig o Bell

Voisinage (cymdogaeth). Yn 2019 drwy Fil Gwyddelig, daeth y trefniant hwn yn rhan o statud ROI.

# Pysgodfeydd

## Ystadegau Dalfeydd

Cyhoeddir ystadegau diwydiant pysgota'r DU gan y MMO pob blwyddyn (mis Medi) am y flwyddyn flaenorol. Mae'n rhoi gwybodaeth ddiweddar am ddalfeydd, y gêr a ddefnyddir, lleoliadau dal (o fewn a thu allan i ddyfroedd tiriogaethol y DU) a gweithgareddau pysgota cychod gwledydd eraill yn nyfroedd y DU.

Mae'r ffigurau glanio'n rhoi darlun o stociau targed y bysgodfa ond heb adrodd faint a daflir yn y bysgodfa na faint o rywogaethau targed a daflir mewn pysgodfeydd eraill. Er enghraifft, taflir canrannau uchel o leden goch a gwyniad môr o'i gymharu â glanio. Rhoddir dadansoddiad o daflu gan y prif fathau o bysgodfa yng nghyngor ICES.

Mae adroddiad ystadegau pysgota môr diweddaraf y MMO i'w gael yma: ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU). Mae data ar ddalfeydd hefyd yn cael ei gadw gan Lywodraeth y DU. Defnyddiwyd dadansoddiad o ddalfeydd rhwng 2019-2024 isod i adnabod rhywogaethau a ddaliwyd gan gychod pysgota dyfnforol.

| Categori Gêr | Rhywogaethau (tunelli) | | | | | | Canran yn ôl math o gêr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Penfras | Hadog | Cimwch Norwy | Lleden goch | Lleden chwithig | Gwyniad môr | |
| Treillrwydi traws | 6.14 | 4.70 | 0.93 | 26.39 | 168.52 | 0.66 | <1% |
| Treillrwydi llusg | 0.30 | 0 | 26.39 | 3.73 | 13.47 | 0.02 | <1% |
| Leiniau hir llusg | | | | 0.03 | 0.03 | | N/A |
| Rhwydi drifft | | | | 0.04 | 0.06 | 0.00 | N/A |
| Rhwydi drysu (amhenodol) | 0.73 | 0.00 | 0.02 | 2.91 | 3.62 | 0.03 | <1% |
| Ffunennau pysgota a pholion pysgota (gêr llaw) | 0.02 | | | 0.01 | 0.98 | | N/A |
| Bachau a leiniau (amhenodol) | 0.15 | | | 0.19 | 0.34 | 0.06 | N/A |
| Leiniau hir (amhenodol) | 0.00 | | | 0.17 | 0.01 | | N/A |
| Cychod gêr amrywiol | | | 0.08 | | 0.00 | | N/A |
| Treillrwydi cimwch Norwy | 2.17 | 9.33 | 708.87 | 38.12 | 6.61 | 0.28 | 2.% |
| Treillrwydi estyllod – môr-waelod | 356.64 | 2269.71 | 29921.43 | 214.58 | 98.78 | 37.64 | 87% |
| Treillrwydi estyllod – canolddwr | 121.37 | 1290.49 | 3.38 | 2.05 | 0.00 | 131.08 | 4% |
| Treillrwydi estyllod dwbl | 9.74 | 47.91 | 2160.97 | 1.23 | 4.73 | 0.27 | 6% |
| Treillrwydi canolddwr yn bâr | | | | | | 79.90 | <1% |
| Potiau | 0.17 | 0.00 | 97.44 | 0.31 | 0.05 | | <1% |
| Rhwydi saen (llawes) Albanaidd | | 2.46 | | 0.10 | | 0.42 | N/A |
| Rhwydi drysu gosod (ar angor) | 0.46 | | | 0.73 | 3.85 | 0.00 | N/A |
| Leiniau hir gosod | 0.01 | | 0.00 | | 0.03 | | N/A |
| Rhwydi triphlyg | 0.20 | | | 0.02 | 0.29 | 0.00 | N/A |

DRAFT

**Tabl 1: Cyfanswm y glaniadau (tunelli) yn ôl math o gêr gan gychod yn y DU o 7.a (2019-2024) (N/A = <0.1%)**

Yn Ardal cyfyngiadau Pysgodfeydd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon 7.a. y DU, fflyd cimwch Norwy GI sy'n pysgota'n bennaf ym Môr Iwerddon o ran maint y dalfeydd a math o gêr.

Mae dalfeydd cimwch Norwy (treillrwydi cimwch Norwy, estyllod dwbl a môr-waelod) yn cyfrif am bron i 95% o ran pwysau o’r holl laniadau ym Môr Iwerddon. Mae fflyd GI yn cyfrif am 96% o’r dalfeydd hyn ac am 65% o ran gwerth o’r holl laniadau o Fôr Iwerddon. Mae cychod a gofrestrodd yn Lloegr sy’n cofnodi dal lleden goch a lleden chwithig gyda rhwydi drifft / rhwydi gosod bychain yn defnyddio llai na 2t y flwyddyn, ond mae cychod treillrwyd drawst Lloegr / Cymru yn dal dipyn.

| Gwlad | Rhywogaethau (tunelli) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Penfras | Hadog | Cimwch Norwy | Lleden goch | Lleden chwithig | Gwyniad môr |
| Gwlad Belg | 11.87 | 8.11 | 0.12 | 179.00 | 465.12 | 4.31 |
| Iwerddon | 23.72 | 143.46 | 651.07 | 4.87 | 3.90 | 69.11 |
| Ynys Manaw | 0.18 | 0.20 | 51.59 | 3.17 | 1.54 | 1.02 |
| Y DU - Lloegr | 10.31 | 4.83 | 487.81 | 227.41 | 215.67 | 1.66 |
| Y DU - Gog. Iwerddon | 483.95 | 3606.12 | 31906.47 | 56.36 | 72.46 | 247.21 |
| Y DU - Yr Alban | 3.38 | 13.68 | 475.61 | 0.64 | 10.23 | 0.45 |
| Y DU - Cymru | 0.26 | 0.01 | 9.07 | 2.35 | 1.64 | 0.00 |
| Prif gyfanswm | 533.67 | 3776.40 | 33581.73 | 473.80 | 770.57 | 323.77 |
| | Rhywogaethau (canran o’r pysgod sy’n cael eu dal) | | | | | |
| Gwlad Belg | 2% | <1% | 0.00 | 38% | 60% | 1% |
| Iwerddon | 5% | 4% | 2% | 1% | <1% | 21% |
| Ynys Manaw | <1% | <1% | <1% | <1% | <1% | <1% |
| Y DU - Lloegr | 2% | <1% | 1% | 48% | 28% | <1% |
| Y DU - Gog. Iwerddon | 91% | 96% | 95% | 12% | 9% | 76% |
| Y DU - Yr Alban | <1% | <1% | 1% | <1% | 1% | <1% |
| Y DU - Cymru | <0.1% | <0.1% | <0.1% | <1% | <1% | <0.1% |
| Gwlad Belg | 2% | <1% | 0.00 | 38% | 60% | 1% |

**Tabl 2: Cyfanswm y glaniadau yn y DU yn ôl rhywogaeth (pwysau a chanran yn ôl rhywogaeth) yn ôl gwlad o 7.a (2019-2024)**

| Gwlad | Rhywogaethau (tunelli) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Penfras | Hadog | Cimwch Norwy | Lleden goch | Lleden chwithig | Gwyniad môr |
| Gwlad Belg | 12.4 | 8.2 | 0.1 | 203.9 | 571.9 | 4.8 |
| Iwerddon | 74.7 | 1043.2 | 2224.9 | 55.0 | 113.7 | 167.5 |
| Y Deyrnas Unedig | 498.1 | 3624.7 | 32919.5 | 290.6 | 301.4 | 250.4 |
| Prif gyfanswm | 585.1 | 4676.1 | 35144.5 | 549.6 | 987.0 | 422.7 |
| | Rhywogaethau (canran o’r pysgod sy’n cael eu dal) | | | | | |
| Gwlad Belg | 2% | 0% | 0% | 37% | 58% | 1% |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Iwerddon | 13% | 22% | 6% | 10% | 12% | 40% |
| Y Deyrnas Unedig | 85% | 78% | 94% | 53% | 31% | 59% |

**Tabl 3: Cyfanswm y glaniadau yn ôl rhywogaeth (pwysau a chanran yn ôl rhywogaeth) yn ôl gwlad o 7.a (2019-2024)**

Fflyd Gwlad Belg (treillrwydi trawst yn bennaf) sy'n pysgota lleden chwithig yn bennaf, gyda dalfeydd sylweddol o leden goch. Mae Iwerddon yn pysgota'n rheolaidd ym mharth y DU gan dargedu cimwch Norwy ac, i raddau llai, hadog. Mae fflydoedd Iwerddon yn cyfrif am tua 6% o'r holl laniadau o gimwch Norwy (treillrwydi estyllod a threillrwydi estyllod dwbl) Mae'r pysgota yma'n digwydd yn bennaf yn FU 15.

Mae llai o bysgota gyda threillrwydi dyfnforol a rhwydi saen yn ddiweddar. Mae rhai dalfeydd ynysig ond sylweddol o wyniad gwyn gan gychod pelagig treillrwydi pâr canolddwr). Cyn 2018 roedd fflyd treillrwydi trawst gwlad Belg, yn dal lledod coch a chwithig, yn pysgota llai ond bellach yn pysgota mwy.

Paratowyd tystiolaeth economaidd gan Seafish[18], yn rhoi tystiolaeth o nodweddion fflydoedd, tueddiadau glanio, y prif borthladdoedd glanio, ac arwyddocad economaidd pysgodfeydd dyfnforol. Mae'r adroddiad yn defnyddio data a gasglwyd gan Seafish yn ystod Arolygon Economaidd o Fflydoedd yn defnyddio'r fethodoleg a ddisgrifir yn Offeryn Amcangyfrifon ac Ymchwiliadau Fflyd Economaidd y DU[19]. Rhoddir manylion llawn y fethodoleg yn yr adroddiad.

Y fflyd cimwch Norwy a'r glaniadau cysylltiedig yw'r prif bysgota economaidd ym Môr Iwerddon. Mae'r tablau isod wedi eu hatgynhyrchu o'r adroddiad.

[20]

| Rhywogaethau | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cimwch Norwy (£m) | 9.27 | 8.45 | 7.71 | 10.20 | 6.30 | 8.17 | 10.81 |
| Cimwch Norwy (tunelli) | 4,117 | 3,529 | 3,215 | 4,048 | 3,329 | 4,259 | 3,837 |
| Penfras (£m) | 0.038 | 0.053 | 0.197 | 0.332 | 0.166 | 0.170 | 0.139 |
| Penfras (tunelli) | 25 | 25 | 79 | 118 | 58 | 52 | 40 |
| Gwyniad môr (£m) | 0.0019 | 0.0064 | 0.0095 | 0.029 | 0.0337 | 0.0194 | 0.0127 |

[18] Crynodeb Tystiolaeth FMP Dyfnforol Môr Iwerddon – Seafish, ar gael yn y deunydd ychwanegol / atodiad

[19] Offeryn Ymchwiliadau Fflyd ac Amcangyfrifon Fflyd Economaidd y DU - Adroddiad Methodoleg — Seafish

[20] O SEAFISH : Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Môr Iwerddon: Crynodeb Tystiolaeth Seafish 2024

DRAFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyniad môr (tunelli) | 3 | 11 | 11 | 32 | 32 | 21 | 20 |
| Hadog (£m) | 0.508 | 0.959 | 1.21 | 0.940 | 0.412 | 0.524 | 0.372 |
| Hadog (tunelli) | 427 | 655 | 886 | 644 | 296 | 482 | 352 |
| Lleden chwithig (£m) | 0.026 | 0.023 | 0.024 | 0.078 | 0.434 | 0.397 | 0.654 |
| Lleden chwithig (tunelli) | 5 | 3 | 5 | 12 | 53 | 57 | 60 |
| Lleden goch (£m) | 0.0259 | 0.029 | 0.038 | 0.037 | 0.049 | 0.045 | 0.027 |
| Lleden goch (tunelli) | 40 | 49 | 52 | 45 | 59 | 56 | 27 |

**Tabl 4. Glaniadau yn ôl pwysau a gwerth ar gyfer rhywogaethau o fewn sgôp FMP 2016-2022.**

.[21]

| Gwerthoedd | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm pysgota (£m) | 9.87 | 9.52 | 9.18 | 11.6 | 7.39 | 9.33 | 12.0 |
| GVA (£m) | 5.36 | 4.94 | 4.91 | 6.54 | 4.81 | 4.55 | 4.71 |
| Elw gweithredol (£m) | 2.47 | 2.22 | 1.74 | 2.69 | 2.17 | 1.61 | 1.19 |
| Elw net (£m) | 1.69 | 1.34 | 1.11 | 2.06 | 1.54 | 0.46 | 1.19 |
| FTE | 242 | 212 | 235 | 163 | 157 | 216 | 194 |

**Tabl 5. Dangosyddion perfformiad economaidd allweddol ar gyfer pysgodfeydd perthnasol i FMP 2016-2022**

| Grŵp Gêr | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Treillrwydi estyllod | 4529.45 | 4182.61 | 4227.64 | 4880.91 | 3746.35 | 4767.87 | 4273.11 |
| Treillrwydi trawst | 0.14 | 3.11 | 0.40 | 1.19 | 57.25 | 44.93 | 41.23 |
| Potiau | 12.52 | 18.93 | 11.59 | 9.31 | 11.32 | 11.45 | 10.73 |
| Treillrwydi llusg | 1.76 | 3.08 | 2.34 | 6.38 | 11.04 | 0.42 | 7.57 |
| Rhwydi | 4.37 | 10.41 | 5.31 | 1.11 | 1.28 | 2.15 | 2.22 |
| Leiniau | 0.04 | 0.49 | 0.65 | 0.24 | 0.08 | 0.16 | 1.01 |
| Rhwydi saen (llawes) | 68.25 | 44.56 | | | | | |
| Eraill[22] | 0.06 | 0.03 | | 0.07 | | | |

[21] O adroddiad SEAFISH
[22] Mae'r categori Eraill yn cynnwys "Gêr Amrywiol".

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm blynyddol** | **4616.58** | **4263.22** | **4247.94** | **4899.21** | **3827.33** | **4826.97** | **4335.88** |

**Tabl 6. Dangosyddion perfformiad economaidd allweddol mewn tunelli am bob grŵp gêr yn ôl blwyddyn, ar gyfer pysgodfeydd perthnasol i FMP 2016 – 2022.**

Pwyntiau allweddol o adroddiad Seafish:

- Treillrwydi estyllod yw'r gyfran fwyaf o'r fflyd ac yn gyfrifol am hyd at 98% o'r glaniadau, gyda'r rhan fwyaf o'r pysgota'n digwydd yn ardal cynefin cimwch Norwy. (is-hirsgwariau ICES 37E4, 36E4).
- Mae mwy o bysgota gyda threillrwydi trawst ers 2020 (cychod y DU) a mwy o ledod coch a chwithig wedi eu glanio.
- Mae dalfeydd gan leiniau a rhwydi statig / drifft yn gymharol fach.
- Mae dalfeydd hadog yn amrywio ond o bosib yn dirywio.
- O ran nifer, mae llai o gychod pysgota o bob maint.

Mae'r brif bysgodfa cimwch Norwy yn gwbl ddibynnol ar gael mynediad at y cynefin cimwch Norwy, a'r bysgodfa felly'n agored iawn i unrhyw ddatblygiadau neu gynlluniau morol eraill sy'n effeithio ar y cynefin a'r ardal hon. Gall colledion cynefin bach gael effaith fawr – yn uniongyrchol drwy golledion dalfa sylweddol neu'n anuniongyrchol oherwydd bod llai o le i gychod wedi eu dadleoli a'r newid mewn pwysau pysgota o ganlyniad.

DRAFT

## Fflyd y DU

Yn 2024 roedd 115 o gychod cofrestredig yn nhiriogaeth ddibynnol y Goron yn glanio rhywogaethau dyfnforol Môr Iwerddon wedi eu dal o ardal y FMP. Mae'r nifer yma 40% yn llai na'r nifer oedd yn pysgota yn awdurdodaeth y FMP ddegawd yn ôl. Mae'r lleihad yn bennaf yn fflydoedd cofrestredig Cymru a Gogledd Iwerddon, ond gyda lleihad wedi'i nodi yn holl wledydd y DU. O gychod y DU oedd yn pysgota yn 2024, roedd fflydoedd GI a Lloegr yn cyfrif am 43% o'r cyfanswm am y naill a 37% am y llall.

| Gwlad cychod pysgota | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Manaw | 3 | 1 | 2 | 1 | 15 | 14 | 3 | 4 | 2 | 1 |
| Y DU - Lloegr | 56 | 57 | 55 | 42 | 49 | 34 | 44 | 44 | 38 | 43 |
| Y DU - Gog. Iwerddon | 93 | 111 | 99 | 81 | 87 | 68 | 68 | 65 | 52 | 50 |
| Y DU - Yr Alban | 11 | 15 | 13 | 11 | 12 | 8 | 8 | 7 | 7 | 8 |

| Gwlad cychod pysgota | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y DU - Cymru | 27 | 20 | 23 | 15 | 13 | 13 | 10 | 5 | 12 | 13 |
| **Prif gyfanswm** | **190** | **204** | **192** | **150** | **176** | **137** | **133** | **125** | **111** | **115** |

**Tabl 7. Nifer y cychod pysgota'n gofrestredig yn nhiriogaeth y DU a Dibynnol y Goron a laniodd rywogaethau FMP o ardal y FMP (dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 7.a).**

| Hyd | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8.00m a llai | 44 | 45 | 46 | 28 | 31 | 27 | 28 | 32 | 33 | 33 |
| 8.01 - 10.00m | 33 | 35 | 28 | 29 | 29 | 28 | 20 | 15 | 7 | 15 |
| 10.01 - 12.00m | 14 | 16 | 14 | 11 | 11 | 6 | 10 | 11 | 10 | 9 |
| 12.01 - 15.00m | 20 | 22 | 23 | 13 | 29 | 20 | 16 | 17 | 15 | 14 |
| 15.01 - 18.00m | 20 | 20 | 20 | 19 | 23 | 16 | 13 | 9 | 7 | 4 |
| 18.01 - 24.00m | 54 | 60 | 57 | 48 | 48 | 35 | 42 | 37 | 35 | 36 |
| 24.01 - 40.00m | 5 | 6 | 4 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 3 | 4 |
| Dros 40.00m | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 |
| **Prif gyfanswm** | **190** | **204** | **192** | **150** | **176** | **137** | **133** | **125** | **111** | **115** |

**Tabl 8. Nifer y cychod pysgota yn nhiriogaeth y DU a Dibynnol y Goron yn ôl hyd, a laniodd rywogaethau FMP o ardal y FMP (dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 7.a).**

DRAFT

## Fflyd Gogledd Iwerddon

Fflyd bysgota GI, o ran nifer a thunelli glanio, yw'r brif weithgaredd bysgota ym Môr Iwerddon, gan dargedu cimwch Norwy'n bennaf mewn treillrwydi estyllod môr-waelod gydag un, dwy neu hyd yn oed bedair sach gasglu.

Ers Rhagfyr 2023, roedd 270 o gychod wedi eu trwyddedu gan DAERA, a'r rhan fwyaf o gychod 10m a mwy wedi eu lleoli yn un o'r tri phrif borthladd. Mae'r 10 mlynedd

diwethaf wedi gweld y fflyd yn lleihau, ar draws cychod o bob maint. Mae'r fflyd ar y cyfan yn cynnwys cychod hŷn. Mae'r proffil oed uchel yma'n codi nifer o faterion pwysig i'r fflyd leol, yn enwedig addasrwydd y cychod i fod ar y môr, iechyd a diogelwch ac effeithlonrwydd tanwydd.

Mae'r fflyd pysgod gwyn wedi lleihad ers canol y 2000au wrth i stociau penfras a gwyniad môr ddirywio. Mae'r rhan yma o'r fflyd wedi diflannu bron yn y ddwy flynedd ddiwethaf, a glaniadau hadog wedi lleihau o ganlyniad. Ar hyn o bryd nid oes cychod pysgod gwyn llawn amser pwrpasol yn weithredol. Pysgodfa targedu hadog dymhorol ydyw'n bennaf erbyn hyn, gan ddefnyddio treillrwyd estyllod ddyfnforol wedi'i thynnu dros wely'r môr (a elwir yn lleol yn gêr lled-belagig) neu'n defnyddio treillrwyd raff hadog[23].

| Math o gwch | 2023 | 2024 |
|---|---|---|
| Pysgod gwyn (e.e. hadog, penfras, gwyniad môr) (llawn amser) | 0 | 0 |
| Cimwch Norwy (corgimychiaid) | 54 | 55 |
| Pysgod gwyn / cimwch Norwy | 7 | 1 |
| Pelagig (e.e. penwaig, mecryll) | 3 | 3 |
| Cychod cregyn bylchog | 2 | 0 |
| Cimwch Norwy / Cychod cregyn bylchog | 12 | 14 |
| Eraill | 15 | 20 |

**Tabl 9: Strwythur fflyd bysgota dros 10m Gogledd Iwerddon rhwng 31 Rhagfyr 2023 a 2024.**

## Fflyd Lloegr

Yn 2024, roedd fflyd Lloegr yn cynnwys 43 o gychod, gyda'r rhai yn 12m neu lai o hyd yn cyfrif am 84% o'r cyfanswm. Y prif gêr a ddefnyddir gan fflyd Lloegr yw treillrwydi estyllod llusg môr-waelod, rhwydi drysu, a bachau a leiniau. Lledod coch a chwithig yw'r gyfran fwyaf o'r glaniadau o bysgod dyfnforol gan fflyd Lloegr. Dros gyfnod o 5 mlynedd (2019 – 2023), roedd glaniadau o ledod chwithig a choch yn cyfrif am ~15% o bwysau'r pysgod a laniwyd o ardal y FMP am y naill, a ~26% am y llall. Gyda'i gilydd, dros 5 mlynedd (2019 – 2023), roedd lledod chwithig a choch yn ~49% (346 o 708 tunnell) o bwysau'r holl bysgod a laniwyd o'r FMP hwn gan gychod yn Lloegr. Roedd cychod Lloegr dros y 5 mlynedd wedi glanio mwy o gimwch Norwy (350 tunnell) o ran pwysau na lledod chwithig a choch, ond roedd hyn yn llai na 1% o'r holl gimwch Norwy a laniwyd o ardal y FMP.

[23] Treillrwyd estyllod ddyfnforol gyffredin gyda dellt diamwnt mawr iawn yn yr esgyll ac ym mlaen y dreillrwyd [Treillrwyd Raff Hadog | Dyfais ddetholus | Databas Gêr Pysgota SEAFISH](#).

| Hyd | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8.00m neu lai | 20 | 17 | 21 | 27 | 22 | 23 |
| 8.01 - 10.00m | 14 | 9 | 10 | 6 | 5 | 11 |
| 10.01 - 12.00m | 4 | 1 | 4 | 3 | 2 | 2 |
| 12.01 - 15.00m | 8 | 6 | 7 | 7 | 8 | 5 |
| 18.01 - 24.00m | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 24.01 - 40.00m | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Dros 40.00m | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Prif gyfanswm** | **49** | **34** | **44** | **44** | **38** | **43** |

**Tabl 10. Nifer y cychod yn ôl hyd a laniodd rywogaethau FMP o ardal y FMP (dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 7.a).**

| Math o Gêr | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Treillrwydi trawst | 3 | 3 | 4 | 3 | 3 | 2 |
| Treillrwydi llusg | 5 | 1 | 0 | 2 | 1 | 2 |
| Rhwydi drysu (amhenodol) | 10 | 9 | 7 | 11 | 11 | 4 |
| Ffunennau pysgota a pholion pysgota (gêr llaw) | 2 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Bachau a leiniau (amhenodol) | 2 | 6 | 6 | 7 | 6 | 11 |
| Leiniau hir (amhenodol) | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Treillrwydi cimwch Norwy | 6 | 5 | 5 | 3 | 2 | 1 |
| Treillrwydi estyllod – môr-waelod | 18 | 13 | 18 | 13 | 16 | 25 |
| Treillrwydi estyllod dwbl | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Treillrwydi estyllod pâr – canolddwr | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Potiau | 5 | 2 | 5 | 3 | 3 | 3 |
| Rhwydi drysu gosod (ar angor) | 3 | 7 | 8 | 9 | 15 | 20 |
| Rhwydi triphlyg | 2 | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Leiniau hir drifft | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Leiniau hir gosod | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Rhwydi drifft | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Anhysbys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| **Prif gyfanswm** | **59** | **48** | **54** | **54** | **63** | **74** |

**Tabl 11. Nifer y cychod o Loegr yn ôl math o gêr a laniodd rywogaethau FMP o ardal y FMP (dyfroedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 7.a). Dylid nodi nad yw'r prif gyfanswm yn cyfrif cychod unigol oherwydd bod rhai cychod yn defnyddio nifer o wahanol fathau o gêr.**

DRAFT

## Fflyd Cymru

Cychod llai na 10m sydd yn fflyd bysgota Cymru'n bennaf, gan ddefnyddio potiau i dargedu stociau di-gwota. Mae cychod dros 10m hefyd yn targedu stociau di-gwota'n bennaf, fel cregyn bylchog neu stociau cwota dyfnforol sydd ddim yn ffocws y FMP hwn fel morlas, morgath, a lleden Fair.

Y stociau FMP sydd o ddiddordeb i fflyd Cymru yn ardal 7.a ICES yw lledod coch a chwithig gyda stociau eraill y FMP sy'n cael eu sgîl-ddal.

## Sylwadau cymdeithasol ac economaidd

Ar ôl ystyried unrhyw effeithiau cysylltiedig â Covid-19 (2019-2020), mae incwm pysgota ar y cyfan wedi codi ers 2016. Fodd bynnag mae llai o elw gweithredol yn cael ei wneud. Mae adroddiad Seafish hefyd yn adnabod llai o bysgotwyr (wedi eu mesur fel FTE) dros y cyfnod hwn.

Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar yr elw y gall cychod pysgota ei wneud, gan gynnwys:

- criwio (cael gafael yn amserol â chriw medrus am dâl cystadleuol, a lles y criw)
- pa mor effeithlon yw'r cychod
- yr amgylchedd gweithio; byddai hyn yn cynnwys awtomeiddio ar y cychod – gan effeithio ar nifer y criw ac ansawdd y ddalfa, ac iechyd a diogelwch gweithredol y cwch
- gallu ennill y gwerth mwyaf o'r ddalfa bysgod (heb greu marchnadoedd mewn dalfeydd rhy fach)
- dibynnu ar rywogaethau allweddol a gallu newid rhwng cyfleoedd pysgota neu greu pysgodfeydd newydd.

# Asesiadau Stoc a MSY

## Cyngor gwyddonol

Y brif ffynhonnell wybodaeth am statws y stociau yw asesiadau a'r cyngor blynyddol gan ICES. ICES yw'r prif fforwm gwyddonol ar gyfer rheoli'r cefnforoedd ac fe'i defnyddir i roi cyngor blynyddol ar lawer o stociau masnachol yng Ngogledd yr Iwerydd.

MSY yw'r ddalfa theoretig fwyaf o ran cydbwysedd y gellir ei chymryd yn barhaus o stoc forol ar gyfartaledd, o dan yr amodau amgylcheddol presennol, heb effeithio'n sylweddol ar y broses atgenhedlu." Mae dwy ffactor bwysig yn cyfrannu at asesu MSY, sef biomas y stoc silio (SSB) a marwolaethau / pwysau ar bysgota. SSB yw pwysau'r gyfran o stoc pysgod sy'n gallu atgenhedlu. Dim ond stociau gyda digon o bysgod sy'n gallu atgenhedlu y gellir eu pysgota yn ôl y MSY. Mae hefyd angen gosod lefel marwolaethau pysgota ar lefel sydd ddim yn effeithio ar allu'r stoc i atgenhedlu'n gynaliadwy i fod yn gyson â'r MSY. Mae ICES yn rhoi cyngor ar sail y dull MSY. Mae mwy o fanylion am fframwaith a phroses asesu ICES ar gael yma:

- Arweiniad i fframwaith ac egwyddorion cynghori ICES

Cynhyrchir y cyngor perthnasol ar Fôr Iwerddon yn flynyddol gan weithgor Eco-ranbarth y Moroedd Celtaidd. Mae'r cyngor yn cynnwys asesiad o statws hanesyddol pob stoc ynghyd â chyngor blynyddol ar ddalfeydd. Mae ICES hefyd yn cyflwyno ystyriaethau pysgodfeydd cymysg ar gyfer rhywogaethau'r FMP hwn. Mae'r cyngor diweddaraf ar gael drwy'r ddolen hon -yma).

Tan 2025 y cyngor ar gyfer stociau'r FMP oedd categori 1 – gydag asesiad dadansoddol a rhagolygon llawn. Oherwydd problem gyda'r asesiad hadog, bu'n rhaid ei ddiraddio yn 2026 i gyngor categori 5. (gw. ICES am fanylion y diffiniadau categori). Mae'r broblem hefyd wedi golygu na allai ICES gyflwyno ystyriaethau pysgodfeydd cymysg ar gyfer blwyddyn bysgota 2026.

Mae cyngor dalfeydd blynyddol ICES yn rhoi hanes diweddar datblygiad y stoc, y gellir yna ei gymharu â dangosyddion biolegol a benderfynir yn wyddonol[24], er mwyn gallu asesu ei statws. Mae'r cyngor yn crynhoi'r dalfeydd diweddar, yn rhoi amcan o farwolaethau pysgota diweddar (F), biomas y stoc silio (SSB) a recriwtio.

Allbwn pwysig arall gan y gweithgor asesu stociau yw atodiad y stoc. Mae'r atodiad yn cofnodi'r wybodaeth a ddefnyddir i gynhyrchu asesiad ICES, a gynhyrchir bob tro y mae'r model / proses asesu'n cael ei diwygio'n sylweddol, neu'n dilyn meincnod gan ICES. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl am ddiffiniad y stoc (dosbarthiad), disgrifiad o'r

[24] $B_{LIM}$, MSY $B_{trigger}$ ayyb.

pysgodfeydd (hanesyddol a diweddar), effeithiau ecosystem, mesurau technegol perthnasol yn eu lle, dalfeydd gan fflydoedd, ac unrhyw waith arolwg a samplo.

Mae'r rhain ar gael ar wefan rhannu cyhoeddiadau ICES, Ystorfa ymchwil y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr.

### Cyngor diweddar

Mae stociau'n datblygu a newid dros amser; mae'r broses gynghori wyddonol yn cynnwys ail-werthuso'r data a'r modelau sydd ar gael (meincnodi) Mae cyfleoedd pysgota ar gyfer y stociau rhannog hyn yn cael eu gosod yn flynyddol ar ôl negodi rhwng y DU a'r UE yn unol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU (TCA), wedi eu tywys gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a thrwy gydbwyso ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Disgrifir yr egwyddorion sy'n cael eu dilyn gan y DU ar gyfer negodi pysgodfeydd rhyngwladol yn y JFS o dan adran 4.2.

Ar gyfer blwyddyn bysgota 2026, gosodwyd cyfyngiadau cynaliadwy ar bysgota hadog a lledod coch a chwithig, yn unol â chyngor ICES.

Gosodwyd cyfyngiadau uwch na chyngor gwyddonol ICES ar bysgota dwy stoc sgîl-ddal nodedig – penfras a gwyniad Môr Iwerddon.

Mae ICES yn cynghori y dylid rheoli stociau cimwch Norwy ar lefel FU er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu pysgota'n gynaliadwy. Ar hyn o bryd, defnyddir un Ddalfa Fwyaf a Ganiateir (TAC) gyfunol ar draws yr holl unedau FU yn Is-ardal 7. O'r wyth uned weithredol yn Is-ardal 7 ICES, dim ond un uned weithredol a welodd laniadau sylweddol mwy na'r cyngor yn 2024. Ym Môr Iwerddon, mae unedau FU 14 a FU 15 wedi cael eu pysgota'n gynaliadwy ar y cyfan (o dan gyngot ICES) ers dros ddegawd. Mae ICES yn cynghori y dylid rheoli cimwch Norwy ar lefel FU yn hytrach na fel rhan o ardal fwy, i sicrhau bod y cyfleoedd pysgota'n adlewyrchu argaeledd pob stoc FU yn unol â'r MSY.

Mae'r FMP hwn yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i weld a oes angen dull rheoli newydd, ac i ystyried yr opsiynau sydd ar gael. Bydd ymgynghori ymhellach yn bwysig wrth ystyried y budd a'r effeithiau posib ac i sicrhau bod barn y rhanddeiliaid yn cael ei hystyried yn iawn.

## Asesu'r dystiolaeth

Roedd y modelau asesu a'r cyngor ar gyfer stociau yn y Cynllun hwn, ar gyfer blwyddyn bysgota 2025, wedi eu hadnabod gan ICES fel categori 1, h.y. roedd asesiad

dadansoddol a rhagolygon llawn yn bosib, gan olygu bod digon o dystiolaeth wyddonol ar gael i asesu[25] MSY. Mae cyngor ICES ar gyfer 2026 wedi parhau i benderfynu MSY y stociau hyn, ac eithrio'r stoc hadog, sydd wedi cael ei ddiraddio oherwydd bod bylchau yn y dystiolaeth wyddonol. Mae ICES ac aseswyr gwyddonol cenedlaethol yn gweithio i geisio llenwi'r bylchau yn y dystiolaeth ond ni fydd yn bosib penderfynu MSY tan ar ôl meincnod yn 2028. Cyflwynir y cyngor ar gyfer y stoc yma bellach ar sail dull Cyngor Rhagofalus ICES, a bydd y TAC yn cael ei osod ar sail y cyngor hwn.

Ar gyfer cimwch Norwy, noda'r FMP fod y ddalfa fwyaf a ganiateir ar gyfer Ardal 7, a gymhwysir fel rhan o'r broses negodi, yn parhau i fod yn anghyson â rheoli stoc ar lefel uned weithredol. Fodd bynnag, dengys adolygiad o'r dalfeydd yn unedau gweithredol Môr Iwerddon eu bod, ar y cyfan, yn gyson â'r cyngor MSY (er gyda pheth gor-bysgota o 4 tunnell yn 2024 os cymhwysir unedau FU)[26]. Ystyriwn felly fod cimwch Norwy Môr Iwerddon wedi'i bysgota ar sail dull MSY mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r broses bresennol o osod cyfyngiadau ar ddalfeydd yn atal mynd drostynt yn y dyfodol, a allai ddigwydd yn 2026 ar gyfer FU15.

| Stoc | Tystiolaeth er mwyn gallu asesu MSY | Ystyried bod y stoc yn cael ei physgota'n gynaliadwy | Sylw |
|---|---|---|---|
| Cimwch Norwy (FU 14) | Oes | Na | Ar sail asesiad ICES o'r uned weithredol. Mae'r ddalfa wedi mynd dros y cyfyngiad dalfa MSY a gynghorir o fymryn (226 v 222 tunnell) |
| Cimwch Norwy (FU15) | Oes | Na | Ar sail asesiad ICES o'r uned weithredol. |
| Penfras | Oes | Na | |
| Gwyniad môr | Oes | Na | |
| Hadog | Nag oes | Na | Wedi'i bysgota'n hanesyddol drwy ddilyn cyngor MSY. |
| Lleden chwithig | Oes | Ydy | |
| Lleden goch | Oes | Na | $F > F_{MSY}$, SSB < MSY $B_{trigger}$ |

25 Un o ofynion Deddf Pysgodfeydd 2020 Adran 6(5)(d).
26 Ar gyfer FU 14, roedd ICES wedi cynghori 222t yn 2024, gan asesu bod 226t o bysgod wedi eu glanio.

**Tabl 12 – Penderfynu'r dystiolaeth wyddonol i asesu pob stoc ar lefel MSY ar sail cyngor ICES a gyhoeddwyd yn 2025.**

Mae hadog, penfras, gwyniad môr a chimwch Norwy'n cael eu dal gyda'i gilydd mewn pysgodfa gymysg. Mae ystyriaethau pysgodfa gymysg yn rhoi goblygiadau i unrhyw sgîl-ddal tebygol o ddilyn cyngor dalfeydd MSY ICES ar gyfer stociau unigol. Mae'r rhain wedi eu cyflwyno'n flynyddol gan ICES ers 2022, fel rhan o osod cyfleoedd pysgota (mae'r diweddaraf ar gael yma[27]).

O ganlyniad i'r asesiad hwn, dylai'r FMP hwn ddynodi polisïau sydd:

- Yn cyfrannu at gynnal y stoc lleden chwithig ar lefel gynaliadwy
- Cyfrannu (penderfyniadau rheoli cymorth) at adfer a chynnal y stociau gwyniad môr, penfras, hadog, lleden goch a chimwch Norwy ar lefelau cynaliadwy lle bo'n bosib, gan gynnwys ystyried a oes angen rhagofalon ychwanegol i ddiogelu cimwch Norwy (FU 14 a 15).

# Rheoli Pysgodfeydd

## Strategaeth gynnal ar gyfer pysgota dyfnforol ym Môr Iwerddon

Nod trosfwaol rheoli pysgodfeydd yn y DU yw diogelu'r defnydd cynaliadwy hirdymor o adnoddau pysgota gan hefyd leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd negyddol posib. Yn y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS), mae awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU yn disgrifio uchelgais cyffredin i sicrhau 'rheolaeth gynaliadwy byd-flaenllaw o bysgodfeydd morol a dyframaeth y DU, a gwneud ein rhan mewn cynorthwyo i ddarparu hyn yn fyd-eang'. Mae'r JFS hefyd yn nodi 'Fel rhan o fod yn Barth Arfordirol annibynnol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi sector pysgota a dyframaeth bywiog, proffidiol a chynaliadwy wedi'i gefnogi gan amgylchedd morol iach sy'n wydn yn erbyn newid hinsawdd'.

Yn nyfroedd y DU, rheolir pysgodfeydd o dan ddeddfwriaeth bysgodfeydd y DU (fel y Ddeddf, is-ddeddfwriaeth traws-DU ac yn y gwledydd datganoledig a deddfwriaeth flaenorol yr UE sydd bellach yn rhan o gyfraith wedi'i chymhathu) a thrwy amodau trwydded lle bo'n briodol.

### Cynllun aml-flwyddyn (EC 2019/472)

[27] Ni chyflwynwyd y cyngor hwn yn 2025 ar gyfer pysgodfeydd 2026.

Mae cimwch Norwy yn Is-ardal 7 ICES a hadog yn Is-ardal 7.a. ICES yn stociau sy'n dod o dan y Cynllun Aml-Flwyddyn ar gyfer Dyfroedd Gorllewinol (MAP) (EUR 2019/472).[28] Mae'r MAP yn cynnwys mesurau i adfer a chynnal stociau pysgod ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY, yn ogystal â gofynion yn ymwneud â phenderfynu cyfleoedd pysgota, gweithredu'r rhwymedigaeth glanio, ac ymgysylltu â thrydydd gwledydd i sicrhau y rheolir y stociau perthnasol mewn ffordd gynaliadwy'n unol ag amcanion y cynllun MAP. Dylai'r gwaith o reoli'r rhywogaethau hyn yn y FMP hwn fod o fewn y cyd-destun cyffredinol hwn.

## Gosod Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir

Mae'r holl stociau yn y FMP hwn yn cael eu cyd-reoli â'r UE. Mae dalfeydd TAC a mesurau cyd-reoli eraill yn cael eu cytuno ar sail negodi rhyngwladol wedi'i dywys gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a chydbwyso ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Byddai mesurau adfer stoc yn fwy llwyddiannus o gael eu cymhwyso i'r ystod stoc gyfan.

## Strategaethau cynaeafu presennol

Os yw stociau (h.y. lleden chwithig) yn cael eu pysgota'n gynaliadwy, y dull yw parhau i'w cynaeafu o fewn y lwfansau cwota a osodwyd, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y JFS. Byddai hyn yn berthnasol i stociau'n dangos amrywiad tymor byr / blynyddol, h.y. cimwch Norwy. Dim ond os byddai pryder wedi'i adnabod mewn pysgodfa neilltuol y mae angen ystyried newid y dull pysgota. Nid yw'r trafferthion gydag asesu hadog ar gyfer 2026 yn nadu dilyn y dull hwn a rheolir y stoc ar sail cyngor gwyddonol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gael ei physgota'n gynaliadwy.

Ar gyfer cimwch Norwy, y dull cyffredinol yw parhau i gynaeafu'n unol â'r TAC a gytunwyd ar y cyd. Fel y dywedwn uchod, ni chredir bod y ddwy FU (14 a 15) ym Môr Iwerddon yn cael eu pysgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd, fodd bynnag nid oes cytundeb rhyngwladol yn ei le i gyfyngu gor-bysgota mewn un FU. Yn flaenorol, defnyddiwyd cyfyngiad "o hyn" i gyfyngu ar faint o bysgod a gymerir o FU mewn cyflwr biolegol gwael, er enghraifft unedau yng Ngorllewin Iwerddon a Môr y Gogledd. Adolygir y mesurau rheoli hyn yn flynyddol fel rhan o'r negodi i osod dalfeydd TAC. Mae'n parhau i fod yn ddull rheoli posib gan ddibynnu ar ddatblygiad cymharol yr unedau FU eraill yn Is-ardal 7.

Ni chafodd gwyniad Môr Iwerddon unrhyw gyngor ar ddalfeydd yn 2026. O'r blaen roedd gan benfras a gwyniad môr gyngor dim dal. Dull a gytunwyd yn rhyngwladol gan yr UE a'r DU oedd lleihau'r dalfeydd gymaint â phosib, peidio â chaniatáu unrhyw bysgodfa darged, a chaniatáu lefel isel o sgîl-ddal na ellid ei osgoi. Roedd hyn yn gadael i bysgodfeydd sy'n economaidd a chymdeithasol bwysig barhau – gyda mesurau osgoi a lleihau priodol ar gyfer y dalfeydd dieisiau. Ar lefelau dal isel, roedd

[28] Roedd MAP y Dyfroedd Gorllewinol yn rhan o Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE, a gafodd ei gadw ac sydd bellach, wedi'i ddiwygio, yn rhan o gyfraith wedi'i chymhathu.

enillion ymylol mewn SSB ar gyfer penfras wedi eu nodi. Mae camau ers 2000 i ddal llai o'r ddwy rywogaeth, ond gan gynnal pysgodfeydd targed gwerthfawr, wedi diffinio'r mesurau technegol sydd yn eu lle ar gyfer pysgodfeydd cimwch Norwy, lledod a physgod gwyn.

## Mesurau Cadwraeth Technegol presennol

Mae Mesurau Cadwraeth Technegol (TCM) yn helpu i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy gan gynnwys rheoliadau o ran maint, adeiladwaith a pha gêr pysgod i'w defnyddio, gwaharddiadau, gofynion maint (pa bysgod i'w cadw) a thaflu. Yn dilyn y cytundeb dwyochrog rhwng yr UE a'r DU yn 2025, adolygodd y DU fesurau gadael ar gyfer pysgodfeydd cimwch Norwy'n gynnar yn 2026.

Mae Fframwaith Mesurau Technegol cyfunol yr UE (UE Rhif 1241/2019) yn pennu'r lefel sylfaenol o bysgota detholus. Gellir yna pysgota'n fwy detholus er mwyn rhoi sylw i broblemau penodol, er enghraifft ym Môr Iwerddon drwy'r mesurau technegol yn Rheoliad cyfunol rhif 2239/2019 yr UE.

Mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn darparu canllawiau ar y rheoliadau cadwraeth technegol a'r rhwymedigaeth glanio (gwaharddiad taflu), gan gynnwys gweithredu'r rheolau, gwerthu pysgod rhy fach, gofynion adrodd a rheoli cwotâu. Hefyd, mae amodau ar drwyddedi'r cychod pysgota'n cynnwys Mesurau Cadwraeth Technegol (TCM) penodol i bysgodfa / ardal. Mae'r cyngor diweddaraf ar y mesurau TCM sydd mewn grym ar wefan Gov.uk yn [Rheoliadau a Rheolau Cadwraeth Technegol a Rhwymedigaeth Glanio 2025 - GOV.UK] Mae angen defnyddio Gêr Tra-Detholus i dargedu pysgota hadog a chimwch Norwy ym Môr Iwerddon.

O dan y Rhwymedigaeth Glanio[29] rhaid i bob dalfa o rywogaethau cwota, gan gynnwys rhai o dan y Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf, gael eu glanio a'u cyfrif yn erbyn cwotâu. Mae eithriadau i'r gofyniad yma'n bosib, ond er y gofynion rheoleiddio mae rhai rhywogaethau'n parhau i gael eu taflu'n gyson.

### Gwaharddiad ar benfras

Mae Rheoliad Cyfunol yr UE (2019/1241) Anecs VI, Rhan C, pwynt 3, yn gweithredu gwaharddiad ar benfras ym Môr Iwerddon. Mae'n rhedeg o'r 14 Chwefror tan 30 Ebrill gan wahardd defnyddio unrhyw dreillrwyd ddyfnforol, rhwydi saen neu rwydi llusg tebyg, rhwydi drysu, cordeddu neu driphlyg, neu unrhyw gêr pysgota gyda bachau

[29] Diffinnir y Rhwymedigaeth Glanio yn Erthygl 15 Rheoliad (UE) Rhif 1380/2013, sydd wedi'i gymhathu i gyfraith y DU ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae ar gael ar wefan legislation.gov.uk. Amlinellir eithriadau pellach – fel y rhai sy'n seiliedig ar lefelau dal *de minimis* neu *oroesi uchel* —yn offerynnau statudol diweddarach y DU.

mewn ardal benodedig ym Môr Iwerddon. Mae eithriad ar hyn o bryd ar gyfer gêr gyda dyfeisiau detholus cymeradwy.

## Cimwch Norwy

Yn hanesyddol, roedd yr opsiynau gêr tra-detholus ar gyfer fflyd cimwch Norwy wedi eu rhagnodi gan raglenni adfer penfras yr UE. Mae'r mesurau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gynnyrch blynyddoedd o waith gan fflyd GI i ddatblygu gêr tra-detholus sy'n lleihau dalfeydd o benfras ond gan barhau i ddal rhywogaethau penfras economaidd hyfyw eraill. Mae'r gêr hyn wedi eu cadw oherwydd ystyrir eu bod hefyd yn lleihau dalfeydd o wyniad môr.

## Y bysgodfa targedu hadog

Dros gyfnod y gwaharddiad ar benfras, mae DAERA yn darparu eithriad ychwanegol i nifer o gychod gael gweithredu pysgodfa sy'n targedu hadog, gan ddefnyddio gêr tra-detholus a chydymffurfio â gofynion adrodd a monitro ychwanegol. Rheolir mynediad o dan amodau trwydded y cychod pysgota – rhaid i gychod sy'n pysgota yn yr ardal hysbysu DAERA yn flynyddol o ba gêr y bwriedir eu defnyddio.

Cytunir ar gyfyngiadau sgîl-ddal penodol pob blwyddyn a dangosodd fonitro fod gan y bysgodfa lefel isel iawn o sgîl-ddal penfras. Yn y blynyddoedd diwethaf, ychydig iawn o bysgod a ddaliwyd o'r bysgodfa hadog. Nid yw'n glir a fydd y stoc yma'n cael ei thargedu yn y dyfodol.

## Cyfnod addasu ar draws Môr Iwerddon

Ar ôl i'r DU dynnu allan o'r UE, mae rhai gwahaniaethau yn y mesurau technegol sydd yn eu lle ym Môr Iwerddon. Un o'r prif wahaniaethau ar hyn o bryd yw defnyddio 'treillrwyd raff' i dargedu hadog. Ni chaniateir y gêr yma yn nyfroedd UE Môr Iwerddon mwyach.

Er bod rhesymau dilys dros dderbyn neu ddiwygio'r gêr a ddefnyddir, mae'n gynyddol bwysig, er mwyn cynnal patrymau pysgota di-wrthdaro lle bo'n bosib, y gellir defnyddio'r gêr mwyaf effeithiol gan gynnwys gêr datblygiadol / gêr newydd ar draws y bysgodfa gyfan. Mae'r dulliau rheoleiddio presennol yn caniatáu i wahanol wledydd gydnabod gêr sy'n caniatáu pysgota detholus cyfwerth.

## MCRS – Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf

Mae Meintiau Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf yn cael eu pennu yn Rheoliad diwygiedig (2019/1241) Anecs VI, Rhan C yr UE. Ar gyfer rhywogaethau'r FMP hwn, y rhain yw:

- Lleden chwithig 240 mm
- Gwyniad môr 270 mm
- Penfras 350 mm
- Lleden goch 270mm
- Cimwch Norwy (cyfan) 70mm, hyd y gragen 20mm

DRAFT

- Cimwch Norwy (cynffonnau) 37mm

## Ymchwil a Datblygu ar gyfer Technoleg Newydd

Gan ddilyn ymlaen o gyfres o dreialon gêr yn 2013, sefydlwyd Grŵp Treialon Gêr GI yn 2017 fel prosiect cydweithredol arweiniol yn y diwydiant rhwng DAERA, AFBI a Seafish. Mae grŵp llywio'r prosiect yn cynnwys sefydliadau cynhyrchu pysgod Gogledd Iwerddon a'r asiantaethau partner hyn. Y cydweithrediad hwn fu'n bennaf gyfrifol am ysgogi'r ymdrechion datblygu gêr yng Ngogledd Iwerddon yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r prosiect, wedi'i arwain gan dechnolegydd gêr llawn amser, yn casglu syniadau gan ddiwydiant a goruchwylio treialon dyluniadau gêr posib ar y môr. Mae grŵp llywio'r prosiect yna'n adolygu dadansoddiad o'r canlyniadau. Hyd yma cynhaliwyd ystod o dreialon gêr ym mhysgodfa cimwch Norwy Môr Iwerddon, gan gynnwys gridiau rhwyd ar ogwydd; treillrwydi gyda dellt mawr yn y paneli uchaf, esgyll a'r gorchuddion, treillrwydi di-orchudd, goleuadau a leolir o gwmpas pwyntiau dianc, rhwydi llewychol, treillrwydi gyda dwy sach gasglu, leiniau arwain yng ngheg y dreillrwyd, sachau casglu T90 a'r sach gasglu FloMo. Mae prosiect treialon gêr GI wedi'i ariannu'n bennaf gan gymorth grant pysgodfeydd wedi'i weinyddu gan DAERA. Mae treialon ychwanegol wedi eu hariannu gan Gronfa Bwyd Môr y DU, Seafish a chyfranwyr eraill.

Mae rhai o'r dyluniadau / addasiadau i'r gêr a dreialwyd wedi llwyddo'n gyson i leihau sgîl-ddal mewn treillrwydi cimwch Norwy heb effeithio ar y ddalfa darged dros nifer ystadegol gadarn o lusgiadau.

Un o'r prif drafferthion wedi'i adnabod gan y Grŵp Treialon oedd cael pobl i fabwysiadu'r gêr newydd. Mae angen digon o dystiolaeth empirig i ddangos yr effaith ar rywogaethau targed a sgîl-ddal i oleuo barn wyddonol a helpu'r fflyd i fabwysiadu'r gêr newydd. Rhaid i'r TCM ymateb yn well i newidiadau mewn cyfleoedd pysgota ac ymddygiad fflydoedd.

Mae gwaith diweddar wedi cynnwys treialon estynedig o ddwy ddyfais a redodd o fis Hydref 2023 tan fis Hydref 2024. Cynhaliwyd 48 llusgiad o bob gêr arbrofol yn nyfroedd cimwch Norwy Môr Iwerddon. Cafodd y gwaith ei ariannu drwy Gronfa Partneriaeth Wyddonol y Diwydiant Pysgota (rhan o Gronfa Bwyd Môr y DU). Cynhaliwyd yr un treialon ym mhysgodfa Sheilds ym Môr y Gogledd fel partneriaeth. Mae prosiect GI hefyd wedi cefnogi gwerthusiad gêr hirdymor o ail-leoli ac ail-ddylunio paneli SMP[30] mewn 2 neu 4 rhwyd mewn cwch treillrwyd cimwch Norwy cwad-rig lleol.

Mae treialon i'r dyfodol yn cynnwys defnyddio drysau treillrwydo plastig newydd. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Ulster a phartneriaid eraill y prosiect ar

[30] Panel Dellt Sgwâr

astudiaeth effaith reoledig o gêr cimwch Norwy ar wely'r môr. Mae prosiectau gêr eraill wedi cynnwys effeithiau cyn / wedyn rheoledig yn cynnwys diwydiant pysgota Gogledd Iwerddon a Phrifysgol Ulster[31]. Gwnaed y gwaith hwn yn 2024.

Yn ogystal â pharhau i geisio lleihau sgîl-ddal, bydd gwaith i'r dyfodol yn ceisio cynyddu effeithlonrwydd, lleihau tanwydd / allyriadau a gwrthdaro rhwng gêr a gwely'r môr.

## Monitro, Rheoli a Mesurau Gorfodaeth

Mae gan reoliadau pysgodfeydd ystod o bwrpasau gan gynnwys atal gweithgareddau sy'n cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd yr amgylchedd morol. Ffocws yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yw lleihau'r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau hynny, er enghraifft peidio ag adrodd neu adrodd yn anghywir, defnyddio gêr pysgota anghyfreithlon, a physgota mewn llefydd gyda chyfyngiadau.

Mae gan awdurdodau gorfodi pysgodfeydd warant i orfodi deddfwriaeth pysgodfeydd y DU a'r UE ac unrhyw reoliadau rheoli cysylltiedig sy'n seiliedig ar wybodaeth, seiliedig ar risg neu sy'n ofynnol o dan rwymedigaethau rhyngwladol y DU i sicrhau bod amrywiol rywogaethau pysgod yn cael eu gwarchod a'u diogelu. Mae gorfodi'r gwahanol reoliadau, yn ddomestig a rhyngwladol, yn unol â'r canllawiau perthnasol ar gyfer rheoleiddwyr.

Ar draws y DU, mae ystod o asedau i gefnogi hyn gan gynnwys arolygiadau ar y môr o gychod pysgota gan Gychod Gwarchod Pysgodfeydd, adroddiadau amserol a chywir o weithgareddau pysgota i'r awdurdodau cymwys, a gwaith monitro ac adrodd lloeren 24/7 gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd y DU. Mae gan Swyddogion Pysgodfeydd Môr awdurdod o dan amrywiol ddeddfwriaeth genedlaethol a rhanbarthol, a rheoliadau, i gyflawni arolygiadau tir a môr i sicrhau cydymffurfio. Mae hefyd angen gwneud archwiliadau swyddfa o gychod pysgota i sicrhau cydymffurfio a bod y gweithgareddau pysgota'n cael eu cofnodi'n gywir, h.y. ardaloedd dal, ac i roi sicrwydd ar draws y gadwyn olrhain gweithgareddau.

Mae awdurdodau pysgodfeydd y DU yn gweithredu cyfundrefn trwyddedu cychod pysgota a mesurau rheoli ar draws y gadwyn olrhain gweithgareddau, o ddal pysgod i'w gwerthu. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys gofynion i gofnodi manylion y ddalfa pan fydd y cwch ar y môr, pwysau'r pysgod a laniwyd, dogfennau cludo a throsglwyddo ar ôl glanio, a nodiadau gwerthu gan brynwyr cofrestredig. Gyda'r dataset cynhwysfawr hwn, gall awdurdodau pysgodfeydd fonitro pysgota a chydymffurfio â rheoliadau lleol a chenedlaethol yn effeithiol.

---

[31] Improved estimates of bottom contact and recovery (RESONANCE). / McGonigle, C; Syms, Craig; Harris, B.P. et al. Prifysgol Ulster, 2025. 64 p

Rhaid i gychod pysgota dros 12m fod â System Monitro Cychod (VMS) lloeren gwbl weithredol, a llyfrau log electronig, fel y gall awdurdodau fonitro a rheoli gweithgareddau pysgota o bell ac i annog mwy o gydymffurfio. Mae deall a gallu monitro a rheoli lle y mae gweithgarwch pysgota'n digwydd yn rhan bwysig o reoli pysgodfeydd, yn enwedig lle y mae cyfyngiadau ardal yn eu lle. Mae data lleoliad cywir a thrylwyr hefyd yn greiddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio morol. Mae VMS hefyd yn cael ei chyflwyno ar draws y fflyd bysgota o dan 12m a bydd yn rhan o'r gyfundrefn fonitro a gorfodaeth ar gyfer pob math o gychod pysgota ar ôl gorffen ei chyflwyno.

## Gofynion rheoli ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon

Mae gan Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr DAERA awdurdod o dan Ddeddf Pysgodfeydd (GI) 1966 ("Deddf 1966"), Deddf Pysgodfeydd Môr 1968 ("Deddf 1968") ac o dan Reoliadau ac Is-ddeddfau a basiwyd wedyn, i warchod, diogelu, hyrwyddo a datblygu pysgodfeydd masnachol a dyframaeth o fewn ei hawdurdodaeth. Yn unol â Phrotocol Gogledd Iwerddon, rhaid i arolygwyr pysgodfeydd môr DAERA hefyd ystyried unrhyw ofynion Protocol, er enghraifft gofynion Afreoledig, Heb eu Hadrodd ac Anghyfreithlon ("IUU") yr UE. Rhaid iddynt hefyd arolygu ac ardystio bod pysgod sy'n cael eu dal ac yn dod i mewn i GI yn cwrdd â phrofion cynaliadwyedd yr UE. Mae DAERA yn gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd ac yn delio ag unrhyw un sy'n torri'r ddeddfwriaeth yn unol â pholisi Gorfodaeth Grŵp Amgylchedd, Morol a Physgodfeydd (EMFG) DAERA.

## Gofynion rheoli ychwanegol yng Nghymru

Ers 2022, rhaid i bob cwch dan 12m gyda thrwydded sy'n pysgota ym mharth Cymru fod â system wirio VMS weithredol sy'n darlledu pob 10 munud.

Mae Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2012 yn gwahardd pysgota môr gyda chychod pysgota sy'n defnyddio gêr llusgo ar hyd y gwaelod mewn ardaloedd penodedig o'r môr.

Mae hefyd angen i gychod sy'n pysgota o fewn ardal 0-6nm i barth Cymru gydymffurfio ag is-ddeddfau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Glannau'r Gogledd a'r Gogledd-Orllewin.

# Ystyriaethau amgylcheddol

## Cyngor cadwraeth

Rhaid i gynlluniau FMP gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol ac amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth fel y Rheoliadau Cynefinoedd, Strategaeth Forol y DU a Datganiad Polisi Morol y DU, Deddf Amgylchedd 2021, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a Deddf Forol Gogledd Iwerddon 2013. Ochr yn ochr â'r gofynion hyn, mae cynlluniau FMP yn ceisio cefnogi ystod o bolisïau amgylcheddol eraill sy'n canolbwyntio ar wella iechyd ein moroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, adfer bioamrywiaeth forol a mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd.

Mae cyngor y Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) gan Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) mewn grym ar gyfer dyfroedd tiriogaethol GI (o'r arfordir allan i 12nm), Natural England ar gyfer dyfroedd tiriogaethol Lloegr (0-12nm), a chyngor gan NRW ar gyfer dyfroedd tiriogaethol Cymru (o'r arfordir allan i 12nm) yn ardal y FMP. Mae cyngor y SNCB gan y JNCC yn ymwneud ag ardal oddi ar arfordir Cymru a Lloegr (o 12nm allan i ffin pysgodfeydd Prydain neu'r EEZ) ardal y FMP. Mae'r dystiolaeth a'r cyngor a roddwyd gan gyrff SNCB yn ategu nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig y FMP hwn. Er bod y FMP yn darparu trosolwg ar y cyngor hwn, rhoddir manylion y dulliau a'r data a ddefnyddiwyd gan y cyrff SNCB i adnabod risg yn yr adroddiad amgylcheddol.

Mae'r cyngor cadwraeth wedi ystyried risgiau i Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG), Nodweddion Morol Blaenoriaeth (PMF) ac i ddisgrifyddion Statws Amgylcheddol Da (GES) Strategaeth Forol y DU. Mae'r dystiolaeth a'r cyngor yn tynnu sylw at y prif bryderon o ran gwrthdaro rhwng pysgota a nodweddion cadwraeth.

### Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Mae'r cyngor cadwraeth yn nodi bod y gwaith presennol o reoli safleoedd AMG yn ystyried effaith pysgota sy'n digwydd o fewn ffiniau'r safle, a bod digon o bysgota a allai ddigwydd y tu allan i'r ardaloedd AMG i effeithio ar nodweddion gwarchodedig yr AMG. Adroddwyd mai prif effeithiau FMP Dyfnforol Môr Iwerddon ar nodweddion dynodedig ardaloedd AMG yw:

Effaith ar ardaloedd AMG yn nyfroedd Gogledd Iwerddon

- Er bod y risg i statws cadwraeth rhywogaethau symudol sy'n nodweddion gwarchodedig o ardaloedd AMG drwy sgîl-ddal gan dreillrwydi dyfnforol a rhwydi saen yn isel ar y cyfan, mae bylchau sylweddol yn y dystiolaeth sydd ar gael ac mae'r gweithgareddau pysgota hyn yn digwydd ar raddfa a allai effeithiau ar lefelau poblogaeth pe bai mwy o sgîl-ddal na'r disgwyl. Aseswyd bod y risg o sgîl-ddal gan dreillrwydi dyfnforol a rhwydi saen felly'n gymedrol.



DRAFT

Gallai parhau neu ehangu'r gwaith monitro ac ymchwil wella ein dealltwriaeth o'r risg, sy'n hanfodol i dargedu mesurau rheoli ar gyfer y rhywogaethau mwy sensitif hyn.

- Credir bod sgîl-ddal mewn potiau / maglau'n isel yn ôl y wybodaeth arbenigol am amodau gweithredol yn y pysgodfeydd hyn a bod llai o wrthdaro â rhywogaethau symudol AMG dynodedig sensitif yn nyfroedd GI.
- Mae rhwydi statig a leiniau hir yn cyflwyno risg sylweddol o sgîl-ddal adar a rhywogaethau symudol eraill sy'n nodweddion gwarchodedig o ardaloedd AMG yn nyfroedd GI. Ystyrir mai sgîl-ddal mewn rhwydi statig yw'r bygythiad mwyaf i lamhidyddion harbwr, a'r prif beth sy'n achosi marwolaethau sgîl-ddal ymhlith morloi. Mae pysgodfeydd rhwydi drysu'n risg sgîl-ddal sylweddol i adar môr sy'n plymio, fel gwylogod, llursod a mulfrain Ewropeaidd. Mae pryderon hefyd am sgîl-ddal adar môr mewn leiniau hir, ac mae adar drycin y graig yn arbennig o fregus i gael eu sgîl-ddal yn y math yma o gêr. Ar sail y dystiolaeth bresennol, mae'r risg o sgil-ddal mewn rhwydi statig a drifft, a bachau a leiniau, yn uchel. Mae angen parhau'r ymdrechion monitro presennol ynghyd â mwy o ymchwil a chasglu data i lenwi'r bylchau er mwyn deall maint y broblem a gallu asesu'r risg yn well. Gallwn edrych eto ar y risg yn y dyfodol wrth i'r dystiolaeth dyfu.
- Mae penfreision / gwyniaid ifanc yn elfen bwysig o ddiet nifer o greaduriaid ysglyfaethus morol ac felly'n cael eu hystyried i fod yn rhywogaethau pysgod bwyd pwysig. Gweoedd bwyd morol yw pysgod bwyd yn y bôn, a'r brif ffynhonnell fwyd i greaduriaid uwch i fyny'r gadwyn fwyd yn aml, gan gynnwys adar môr a mamaliaid morol. Gwyddom fod llamhidyddion harbwr, er enghraifft, yn bwydo'n drwm ar benfreision / gwyniaid ifanc. Mae FMP Dyfnforol Môr Iwerddon, naill ai drwy bysgota targed, sgîl-ddal neu effeithiau is i lawr y gadwyn ar silio a recriwtio, yn debygol o effeithio ar argaeledd penfreision / gwyniaid ifanc a rhywogaethau ysglyfaeth eraill sydd wedi eu dynodi o fewn rhwydwaith AMG GI. Gan gydnabod yr effeithiau posib ond heb ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad hyderus, cynghorwn fod y risg o bysgodfeydd dyfnforol yn disbyddu rhywogaethau ysglyfaeth nodweddion AMG dynodedig yn gymedrol. Mae rhai pysgodfeydd yn debygol o gyflwyno mwy o risg nag eraill ond mae angen mwy o waith i helpu i ddatgysylltu'r risgiau hyn.

Effaith ar ardaloedd AMG yn nyfroedd Lloegr

- Mae risg uchel i statws cadwraeth rhywogaethau symudol dynodedig (adar a mamaliaid) o rwydi statig.
- Er yr ystyrir bod y risg i statws cadwraeth rhywogaethau symudol dynodedig oddi wrth dreillrwydi dyfnforol yn isel ar y cyfan, mae bylchau sylweddol o hyd yn y dystiolaeth. O ganlyniad, mae'r lefel risg yn y FMP wedi'i uwchraddio i gymedrol, ac yn seiliedig ar ddull rhagofalus. Gallai casglu tystiolaeth ychwanegol israddio'r risg yma yn y dyfodol.
- Mae risg gymedrol i nodweddion symudol dynodedig (llamhidyddion harbwr) bod llai o benfreision / gwyniaid ifanc ar gael fel ysglyfaeth.

## Cyngor ar nodweddion AMG dynodedig yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) i werthuso effeithiau pysgota posib ar nodweddion AMG dynodedig drwy'r Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota yng Nghymru. Mae'r prosiect yn darparu'r fframwaith o dystiolaeth amgylcheddol sydd ei angen i asesu'r newidiadau rheoli pysgodfeydd cynaliadwy sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu drwy gynlluniau FMP ymhellach. Dangosodd yr asesiadau cyflwr cynhwysfawr cyntaf gan NRW o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n llwyr 'Gymreig' yn haf 2025 na aseswyd unrhyw safle i fod mewn cyflwr 'anffafriol' oherwydd pysgota.

Gofynnwyd i NRW ddarparu cyngor cadwraeth natur ar sail risg ar gyfer dyfroedd Cymru wrth baratoi FMP Dyfnforol Môr Iwerddon. Mae'r cyngor llawn ar gael yn yr Adroddiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r FMP hwn.
Wrth gyfuno'r holl wahanol fathau o gêr sy'n gysylltiedig â lefelau risg canolig neu uchel, cafodd y lefelau risg canlynol eu hadnabod:

- Risg uchel y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal penfras a gwyniad gan effeithio ar fwyd ysglyfaeth i lamhidyddion harbwr;
- Risg uchel y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal 'slywod môr sy'n atodi eu hunain i'w rhywogaeth letyol;
- Risg ganolig y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal adar môr sy'n plymio;
- Risg ganolig y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal adar môr sy'n plymio;
- Risg ganolig y tu mewn i ardaloedd AGA Gogledd Bae Ceredigion a Bae Lerpwl ar gyfer y fôr-hwyaden ddu a'r trochydd gyddfgoch.

Ni chafwyd cyngor gan NRW ar y risgiau posib i nodweddion AMG sensitif yng Nghymru o bysgodfeydd dyfnforol a dulliau pysgota yn nyfroedd Cymru yng nghyd-destun pa mor fregus yw'r nodweddion i'r lefel isel o bysgota sy'n gysylltiedig â chychod pysgota Cymru. Bydd unrhyw fesurau rheoli ar gyfer Cymru a allai gael eu hystyried ar ôl cyhoeddi'r FMP hwn hefyd yn ystyried y math cyfyngedig o bysgota, faint, pa mor aml a pharhad y pysgota dyfnforol a wneir gan fflyd bysgota Cymru, wrth benderfynu risgiau'n ymwneud ag effeithiau pysgodfeydd.

## Disgrifyddion Strategaeth Forol y DU

O dan Reoliadau Strategaeth Forol 2010 (SI 2010/1627), rhaid i gyrff pysgodfeydd yn y DU weithredu i ennill neu gadw GES yn holl ddyfroedd y DU. Mae Strategaeth Forol y DU (UKMS) yn un o gonglfeini polisi morol y DU ac mae'r JFS yn fesur trawsbynciol fydd yn helpu i sicrhau GES ar gyfer pysgodfeydd masnachol. Ystyrir gwrthdaro o dan gyfres o ddisgrifyddion, yn ogystal ag ar nodweddion blaenoriaeth.

Mae’r cyngor cadwraeth yn tynnu sylw at risgiau pysgodfeydd i ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU (D1 Bioamrywiaeth, D3 Pysgod a Physgod Cregyn Masnachol, D4 Gweoedd Bwyd, D6 Cyfanrwydd Gwely’r Môr a D10 Sbwriel Morol).

Ar ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU yn nyfroedd Gogledd Iwerddon

- Mae risg gymedrol[32] i ennill GES ar gyfer bioamrywiaeth fiolegol morloi, oherwydd effeithiau gweithgareddau pysgota dyfnforol. Er bod sgîl-ddal mewn rhwydi statws yn ffynhonnell farwolaeth sylweddol ar gyfer morloi, a gallai pysgodfeydd dyfnforol leihau argaeledd eu hysglyfaeth, ar eu lefelau presennol ni chredir mai’r pwysau hyn yw un o’r prif achosion newid o ran ennill GES ar gyfer morloi. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn y dystiolaeth o hyd ac mae ymchwil yn cael ei wneud i ddeall y ffactorau sy’n effeithio ar ddeinameg y boblogaeth forloi yn yr Alban a’r DU. O ganlyniad, aseswyd y risg FMP i fod yn gymedrol. Gallai parhau i fonitro, mwy o gasglu data ac ymchwil i lenwi’r bylchau yn ein gwybodaeth, gynorthwyo i ailasesu’r risg yma yn y dyfodol.
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer bioamrywiaeth fiolegol teulu’r morfil ac adar oherwydd effeithiau gweithgareddau pysgota dyfnforol. Achosir hyn yn bennaf gan risg o sgîl-ddal aelodau o deulu’r morfil mewn rhwydi statig ac adar mewn leiniau hir. Gallai parhau i fonitro a mwy o gasglu data ac ymchwil i lenwi’r bylchau yn ein gwybodaeth gynorthwyo i ailasesu neu wella pa mor ddaearyddol benodol yw’r risg yma yn y dyfodol.
- Mae risg uchel i gyfanrwydd gwely’r môr wrth i weithgareddau pysgota dyfnforol symudol aflonyddu ar gynefinoedd benthig. Fodd bynnag, oherwydd diffyg data, asesir y risg yma ar sail data wedi’i gasglu ar draws fflyd cychod symudol dyfnforol >12m y DU yn unig. Nid yw’n cynnwys effeithiau gêr statig; er bod y rhain yn debygol o gyflwyno risg isel, gallai’r math yma o gêr effeithio’n sylweddol ar gyfanrwydd gwely’r môr o gael eu gweithredu’n fwy dwys. Mae angen mwy o waith i ddatgysylltu a mesur effeithiau pysgodfeydd unigol sy’n dod o dan y cyngor cyffredinol hwn.
- Mae risg gymedrol o effeithiau oddi wrth sbwriel morol. Mae angen amcangyfrifon gwell o gêr pysgota sy’n cael ei adael, ei golli neu ei daflu yn y bysgodfa.

Ar ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU yn nyfroedd Lloegr

[32] **Categorïau asesu risg GES drafft:** Risg isel = mae peth risg yn bodoli ond efallai nad yw maint yr effaith yn effeithio ar ddisgrifyddion GES. Risg gymedrol = cysylltiad clir rhwng pysgota a’r dangosydd GES ond mae gweithgareddau eraill hefyd yn cyfrannu at statws presennol y dangosydd. Neu os yw’r gweithgaredd risg uchel ond yn cyfrif am gyfran fach o bysgodfa. Risg uchel = cysylltiad cydnabyddedig rhwng pysgota yn y FMP a methiant y dangosydd GES. Defnyddir ‘risg aneglur’ os yw’r sefyllfa’n gymhleth ac mae angen mwy o waith i ddeall gwir natur y risg.

DRAFT

- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer cyfanrwydd gwely'r môr (DI a D6) wrth i dreillrwydi dyfnforol aflonyddu ar gynefinoedd benthig a chyfrannu at y methiant presennol i gwrdd â thargedau. Mae angen gwaith strategol ar raddfa ddaearyddol ehangach i adnabod cyfleoedd i liniaru risg a deall beth y gellir ei aberthu.
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer adar môr (D1 a D4) oherwydd sgîl-ddal mewn rhwydi statig.
- Er y credir bod y risg o dreillrwydi i ennill GES ar gyfer mamaliaid morol ac adar môr (D1 a D4) yn isel ar y cyfan, mae bylchau mawr o hyd yn y dystiolaeth. O ganlyniad, mae'r lefel risg yn y FMP wedi'i uwchraddio i gymedrol, ac yn seiliedig ar ddull rhagofalus. Gallai casglu tystiolaeth ychwanegol israddio'r risg yma yn y dyfodol.
- Mae risg gymedrol i deulu'r morfil (llamhidyddion harbwr) bod llai o benfreision / gwyniaid ifanc ar gael fel ysglyfaeth iddynt.
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer sbwriel morol (D10) oherwydd gêr pysgota wedi'i adael, ei golli neu ei daflu.

Ar ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU yn nyfroedd Cymru

- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer cyfanrwydd gwely'r môr (D1 A D6) oddi wrth dreillrwydi dyfnforol yn aflonyddu ar gynefinoedd benthig;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer teulu'r morfil, morloi, adar môr (D1 a D4) o sgîl-ddal gan dreillrwydi dyfnforol;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer morloi ac adar môr (D1 a D4) o sgîl-ddal mewn rhwydi gosod a rhwydi drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer teulu'r morfil (llamhidyddion harbwr) (D1 a D4) a risg gymedrol i ennill GES ar gyfer pob aelod arall o deulu'r morfil (D1 a D4) drwy sgîl-ddal mewn rhwydi statig a drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer pysgod (D1 a D4) oherwydd sgîl-ddal mewn treillrwydi dyfnforol, rhwydi statig a drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer teulu'r morfil (llamhidyddion harbwr) (D1 a D4) oherwydd bod llai o fwyd ysglyfaeth ar eu cyfer oherwydd treillrwydi dyfnforol, rhwydi statig a drifft;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer sbwriel morol (D10) o dreillrwydi dyfnforol, rhwydi statig a drifft; a
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer cyfanrwydd gwely'r môr (D1 a D6) oherwydd trosglwyddo INNS gan dreillrwydi dyfnforol.

Mae'r cyngor cadwraeth hefyd yn nodi:

- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer cyfanrwydd gwely'r môr (D1 A D6) oddi wrth dreillrwydi dyfnforol yn aflonyddu ar gynefinoedd benthig;

DRAFT

- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer teulu’r morfil, morloi, adar môr (D1 a D4) o sgîl-ddal gan dreillrwydi dyfnforol;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer morloi ac adar môr (D1 a D4) o sgîl-ddal mewn rhwydi gosod a rhwydi drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer teulu’r morfil (llamhidyddion harbwr) (D1 a D4) a risg gymedrol i ennill GES ar gyfer pob aelod arall o deulu’r morfil (D1 a D4) drwy sgîl-ddal mewn rhwydi statig a drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer pysgod (D1 a D4) oherwydd sgîl-ddal mewn treillrwydi dyfnforol, rhwydi statig a drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer teulu’r morfil (llamhidyddion harbwr) (D1 a D4) oherwydd bod llai o fwyd ysglyfaeth ar eu cyfer oherwydd treillrwydi dyfnforol, rhwydi statig a drifft;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer sbwriel morol (D10) o dreillrwydi dyfnforol, rhwydi statig a drifft; a
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer cyfanrwydd gwely’r môr (D1 a D6) oherwydd trosglwyddo INNS gan dreillrwydi dyfnforol.

## Risgiau i rywogaethau Blaenoriaeth (Gogledd Iwerddon)

Deddf Bywyd Gwyllt ac Amgylchedd Naturiol (Gogledd Iwerddon) 2011 yw’r prif offeryn ar gyfer gwarchod a diogelu bywyd gwyllt mewn perygl a dan fygythiad yng Ngogledd Iwerddon. Mae’r cyngor yn adnabod:

- Bod y risg o sgîl-ddal mewn treillrwydi dyfnforol a rhwydi saen wedi’i asesu i fod yn gymedrol ar gyfer mamaliaid morol, adar môr, pysgod ac elasmobranciaid a restrir fel Nodweddion Blaenoriaeth. Mae risg gymedrol hefyd i famaliaid morol ac elasmobranciaid o gael eu sgîl-ddal mewn potiau / maglau, yn bennaf oherwydd risg gordeddu i forfilod pigfain a heulforgwn. Ystyrir bod y risg o sgîl-ddal rhywogaethau symudol eraill mewn potiau / maglau yn isel.
- Mae’r risg o adar môr a mamaliaid morol yn cael eu sgîl-ddal mewn leiniau hir a rhwydi statig a drifft yn adleisio’r asesiad risg uchod ar gyfer nodweddion AMG (uchel), gyda risg ychwanegol i bysgod / elasmobranciaid.
- Mae risg uchel o sgîl-ddal rhywogaethau symudol mewn rhwydi statig a drifft, a bachau a leiniau. Gallai parhau i fonitro a mwy o gasglu data ac ymchwil i lenwi’r bylchau yn ein gwybodaeth gynorthwyo i ailasesu’r risg yma yn y dyfodol.
- Gan gydnabod yr effeithiau posib ond heb ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad hyderus, cynghorwn fod y risg o bysgodfeydd dyfnforol yn disbyddu rhywogaethau ysglyfaeth Nodweddion Blaenoriaeth yn gymedrol.
- Ystyrir bod y risg o effeithiau corfforol i Nodweddion Blaenoriaeth o dreillrwydi dyfnforol a rhwydi saen yn uchel. Er bod yr effeithiau corfforol o botiau / maglau’n debygol o fod yn isel, bydd yr effaith gymharol yn gysylltiedig â pha mor ddwys yw’r pysgota potiau / maglau yn yr ardal. Oherwydd bod angen mwy

o dystiolaeth, ystyrir bod y risg i Nodweddion Blaenoriaeth o effeithiau corfforol o botiau a maglau'n gymedrol.

- Mae'r cyngor yn nodi'r bylchau yn y dystiolaeth ar gyfer cordeddu, sgîl-ddal a'r effaith ar wely'r môr.

Mae'r aflonyddwch a achosir gan arolygon pysgodfeydd annibynnol (h.y. casglu data yn y maes) yn broblem newydd sydd ond yn ddiweddar wedi'i hadrodd fel pryder mawr gyda'r twf mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr (ORE) ac mewn ardaloedd morol gwarchodedig (AMG).[33] Mae arolygon pysgodfeydd annibynnol yn hanfodol i reoli pysgodfeydd, bywyd gwyllt ac ecosystemau'n gynaliadwy.

Mae'r data'n cael ei gasglu fel rhan o gyfres amser hirdymor i helpu i wneud asesiadau a rhoi cyngor rheoli cywir, cryno, amserol ar sail gwyddoniaeth i bysgodfeydd. Mae rhaglenni arolwg yn dibynnu ar ddulliau a ddyluniwyd yn wyddonol i samplo rhywogaethau o wahanol faint, ar wahanol adegau, mewn gwahanol leoliadau, amser a chynefin. Bydd peidio â pharhau i gasglu data'n cael effaith sylweddol ar reoli'r bysgodfa'n gynaliadwy. Rhaid monitro'r effaith yma'n ofalus a gwneud addasiadau i leihau colli ansawdd.

## Newid hinsawdd

Mae effeithiau newid hinsawdd i'w gweld yn barod yn yr amgylchedd morol a disgwylir i dymheredd uwch wyneb y môr, asideiddio'r cefnfor a phatrymau tywydd ansefydlog effeithio ar ecoleg Môr Iwerddon. Rydyn ni eisoes yn gweld mwy o rywogaethau dŵr cynnes yn nyfroedd y DU a llai o rai rhywogaethau dŵr oer, a disgwylir i'r ddwy duedd yma barhau yn y dyfodol. Bydd y newidiadau disgwyliedig yn nosbarthiad rhywogaethau yn achosi canlyniadau i bysgodfeydd masnachol ac yn debygol o effeithio ar ymddygiad pysgota, cwotâu pysgota, a bydd angen camau rheoli i addasu.

Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn ymrwymedig i leihau allyriadau CO2 yn y fflyd bysgota, gwella gwydnwch yn erbyn effeithiau hinsawdd ar draws y sector a cheisio cefnogi'r diwydiant i leihau allyriadau, gan greu system fwy cynaliadwy, sicrhau bwyd maethlon o ansawdd uchel a chynnal a gwella diogelwch bwyd. Bydd lliniaru a lleihau effeithiau o ganlyniad i'r newid mewn amodau hinsawdd yn cyfrannu at yr amcanion newid hinsawdd, ecosystem a budd cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Pysgodfeydd 2020.

Gallai ecosystemau morol gynnig cyfle i ddefnyddio carbon sy'n cael ei storio yn y môr i liniaru yn erbyn newid hinsawdd. Mae'r JFS yn cyfarwyddo bod yn rhaid i awdurdodau polisi pysgodfeydd gydnabod bod gwarchod, adfer a rheoli cynefinoedd carbon glas yn gynaliadwy'n cynnig ateb byd natur a allai helpu i addasu a chryfhau gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd, ynghyd â manteision atafaelu carbon a bioamrywiaeth.

---

[33] Papur enghreifftiol: https://doi.org/10.1093/icesjms/fsae060

Mae gan awdurdodau polisi'r DU wahanol dargedau ar gyfer newid hinsawdd ac yn datblygu cynlluniau i gefnogi'r ymdrechion tuag at sero net. Mae Deddf Newid Hinsawdd 2008 (diwygiwyd yn 2019) yn gosod targed cyfreithiol-ymrwymol i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net (GHGE) erbyn 2050 ar draws y DU, gydag uchelgais i sicrhau lleihad o 78% erbyn 2035. I gefnogi'r targedau hyn, rhaid i bob sector gan gynnwys sector bwyd môr y DU ddatblygu cynlluniau i leihau eu GHGE a defnyddio ffynonellau ynni glân amgen.

Mae'r FMP hwn hefyd yn cyd-fynd â rhwymedigaethau Deddf Newid Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022. Un o ofynion y Ddeddf yw bod DAERA yn datblygu a chyhoeddi Cynllun Gweithredu Hinsawdd Gogledd Iwerddon a Chynllun Sector Pysgodfeydd i gynorthwyo i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Mae'r gweithredu yn y Cynllun hwn yn cyfrannu at ymateb y sector drwy hyrwyddo arferion pysgota carbon isel, defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon a chryfhau gwydnwch i effeithiau hinsawdd.

I gefnogi gyda chyflawni'r amcan newid hinsawdd yn y Ddeddf, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i wneud penderfyniadau rheoli a chymryd safiadau negodi ar sail tystiolaeth, gan osod cyfyngiadau pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael er mwyn cefnogi gwydnwch parhaus y stociau pysgod a'r fflydoedd pysgota sy'n dibynnu arnynt. Wrth i fwy o ymchwil a thystiolaeth ar gyfer newid hinsawdd ddod ar gael, bydd pedair gweinyddiaeth y DU yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota i'w helpu i addasu i effaith newid hinsawdd ar rywogaethau sy'n fasnachol bwysig.

Yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd ar bysgodfeydd, a bod angen addasu i'r newidiadau hyn, mae hefyd yn bwysig ystyried lliniaru yn erbyn newid hinsawdd (a thargedau sero net) ar gyfer pysgota.

DRAFT

# Polisïau'r FMP

Wrth ddatblygu polisïau ar gyfer y FMP hwn, mae'r awdurdodau pysgodfeydd wedi ystyried polisïau cysylltiedig, cytundebau rhyngwladol, cyngor cadwraeth a datblygiadau sydd ar waith. Maen nhw wedi adnabod tystiolaeth a mesurau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi gweledigaeth y FMP hwn a'i amcanion. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r FMP hwn yn cysylltu'n uniongyrchol i'r amcanion pysgodfeydd a ddisgrifir isod. Er bod cynlluniau FMP yn helpu i gwrdd â'r amcanion hyn, mae dulliau polisi eraill hefyd ar gael. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd wedi ystyried y cyngor cadwraeth gan y byrddau SNCB ac wedi cynnwys allbynnau'r gwaith hwnnw wrth ystyried ble y gallai fod angen gweithredu polisi.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen mwy o waith datblygu polisi cyn cytuno ar weithredu newydd, a allai gynnwys casglu mwy o dystiolaeth neu ymgynghori cyhoeddus, ynghyd â chwblhau asesiadau effaith priodol. Bydd hyn yn rhan o gam gweithredu'r FMP.

## Nod Polisi 1: Cynaeafu'r stoc lleden chwithig yn gynaliadwy, ar lefel sy'n gymesur â'r Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy.

### Rhesymeg

Prif nod pob cynllun FMP, os oes digon o dystiolaeth ar gael i asesu stociau MSY, yw cyflwyno polisïau er mwyn adfer neu gynnal stociau pysgod ar lefelau cynaliadwy. O gofio bod digon o dystiolaeth i asesu MSY ar gyfer lledod chwithig, mae'r stoc yma'n dod o dan adran 6(3)(a) Deddf 2020.

Mae statws stociau'n newid dros amser, a noda'r cyngor gwyddonol ar gyfer 2026 fod y stoc lledod chwithig ar lefel gynaliadwy[34]. Mae datblygiad diweddar y stoc wedi'i ystyried wrth benderfynu'r TAC. Cynigiwn gadw'r dull hwn o weithio, gan ystyried y wybodaeth a'r cyngor gwyddonol gorau, ystyriaethau pysgodfeydd cymysg a phryderon economaidd-gymdeithasol wrth osod cyfyngiadau dalfa blynyddol.

Mae dalfeydd TAC yn rhan allweddol o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy ac wrth osod TAC ar gyfer rhywogaethau a gyd-reolir fel y rhain, byddwn yn ceisio cadw'r pwysau pysgota ar lefel gynaliadwy, ar ôl ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae'r awdurdodau polisi'n adolygu stociau'n flynyddol cyn negodi dalfeydd TAC gan ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd wrth benderfynu

[34] Mae "lefel gynaliadwy", ar gyfer stoc forol, yn golygu lefel stoc sydd uwchlaw'r lefel biomas a all gynhyrchu'r ddalfa fwyaf sy'n gynaliadwy (MSY);

cyfleoedd pysgota. Nid oes unrhyw ddisgwyl ar fyrder y dylid gweithredu rhaglen adfer neilltuol.

Gosodir dalfeydd TAC ar gyfer stociau unigol ond mae llawer yn cael eu dal gyda'i gilydd mewn pysgodfeydd cymysg naill ai fel pysgod targed neu sgîl-ddalfa. Yn y pysgodfeydd cymysg hyn, gall fod yn anodd pysgota pob stoc ar lefel MSY. Gan ddibynnu ar ddatblygiad stoc y rhywogaeth, gallai fod angen mabwysiadu TAC neu fesurau technegol eraill yn y pysgodfeydd perthnasol sy'n caniatáu ar gyfer y gwahanol lefelau o gyswllt a chynnal pysgodfa gynaliadwy.

### Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn

| | |
|---|---|
| Cam Gweithredu 1.1 | Parhau i weithio, yn unol â'r JFS, gydag awdurdodau polisi eraill y stoc rannog hon, er mwyn parhau i'w chynaeafu ar lefel gynaliadwy. |
| Cam Gweithredu 1.2 | Parhau i ddefnyddio dull o osod dalfeydd TAC sydd wedi'i oleuo gan y cyngor gwyddonol gorau ar gael, gan gynnwys ystyriaethau pysgodfeydd cymysg a ffactorau economaidd-gymdeithasol, yn unol â dull MSY. |
| Cam Gweithredu 1.3 | Gweithio i roi sylw i unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a data gan bysgotwyr. |

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

- Yr amcan cynaliadwyedd
- Yr amcan rhagofalus
- Yr amcan tystiolaeth wyddonol
- Yr amcan mynediad cyfartal
- Yr amcan budd cenedlaethol

## Nod Polisi 2: Cynaeafu stociau penfras, gwyniad môr, hadog, lleden goch a chimwch Norwy'n gynaliadwy i gyfrannu at adfer a chynnal y biomas ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY.

### Rhesymeg

O dan Ddeddf Pysgodfeydd 2020, os yw asesu stociau MSY yn bosib, rhaid i'r FMP nodi polisïau ar gyfer adfer y stoc neu ei chynnal ar lefelau cynaliadwy. Mae digon o dystiolaeth i asesu'r MSY ar gyfer stociau penfras, gwyniad môr, lleden goch a chimwch Norwy ym Môr Iwerddon felly mae'r stociau hyn yn dod o dan adran 6(3)(a) Deddf 2020. Fodd bynnag, ni chredir bod y stociau hyn yn cael eu pysgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd ac nid ydynt wedi ymateb i osod dalfeydd TAC cyfyngedig.

Ar gyfer y stociau rhannog hyn, rhaid i'r cynllun ail-adeiladu / adfer stoc mwyaf effeithiol fod ar gyfer cynefin cyfan y stoc a rheoli'r holl bysgota sy'n digwydd yn y pysgodfeydd, gan ba bynnag wlad a pha bynnag fflyd.

Ar gyfer gwyniad môr, mae'r UE a'r DU wedi ymrwymo i leihau sgîl-ddal gwyniad Môr Iwerddon yn effeithiol a pharhaus yn y bysgodfa cimwch Norwy, ac wedi cytuno i edrych ar fesurau priodol i leihau sgîl-ddal gwyniad môr yn effeithiol a pharhau i symud ymlaen gyda chyflwyno mesurau cadwraeth technegol gwell (TCM)[35]. Mae'r UE a'r DU wedi cytuno i sefydlu fframwaith gwerthuso a gwaith casglu data ar y cyd ar gyfer TCM. Gan ddilyn meincnod 2025[36] mae'r stoc yn parhau i gael ei physgota uwchlaw'r lefelau diogel ac mae'r SSB islaw'r pwyntiau cyfeiriol. Mae'r pysgod sy'n cael eu dal yn cael eu taflu'n bennaf.

Mae ail-adeiladu'r stoc benfras wedi'i gyfyngu'n bennaf gan recriwtio isel, sy'n gysylltiedig â thymheredd cynhesach a SSB isel iawn. Mae marwolaethau o bysgota'n isel iawn ar hyn o bryd. Byddai angen blynyddoedd lawer o recriwtio uwch i gynyddu biomas y stoc o'i gymharu â phwyntiau cyfeiriol ICES, i ganiatáu'r UE / DU i ddiwygio cyfleoedd a mesurau pysgota.

Y polisi ar gyfer stociau penfras a gwyniad môr yw parhau i leihau a / neu osgoi dalfeydd dieisiau. Osgoi a lleihau dal penfras oedd y prif reswm i ddechrau dros ddatblygu'r mathau presennol o gêr a ganiateir mewn rhai pysgodfeydd ym Môr Iwerddon. Mae ffocws diweddar y gwaith o ddatblygu mesurau TCM ar ddal gwyniad môr rhy fach, heb newid y dull o ddal penfras.

Mae TCM yn offeryn pwysig i gefnogi pysgota cynaliadwy, yn enwedig mewn pysgodfeydd cymysg i reoli dalfeydd dieisiau a lleihau taflu. Er bod y lefel sylfaenol a sefydlwyd yn y fframwaith TCM (Rheoliad UE Wedi'i Gymhathu 2019/1241) yn ei le o hyd, mae sgôp i ddiwygio a datblygu TCM mwy effeithiol. Yn dilyn trafodaethau cyfleoedd pysgota 2026 yr UE / DU, mae'r ddwy ochr wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i adolygu pa mor effeithiol yw'r mesurau technegol ac i fabwysiadu'r mesur mwyaf detholus, neu gyfwerth, ar gyfer pysgodfeydd cimwch Norwy.

---

[35] (c) Môr Iwerddon i. Roedd y cynrychiolwyr yn cydnabod bod stociau gwyniad a phenfras Môr Iwerddon wedi disbyddu. Cytunodd y gwledydd i barhau i ystyried mesurau technegol priodol yn 2025 er mwyn lleihau sgîl-ddal dieisiau yn y basn môr hwn. ii. Roedd y cynrychiolwyr yn cydnabod y gwaith ar dreialon gêr gan Ogledd Iwerddon ac Iwerddon i leihau sgîl-ddal gwyniad môr yn ddieisiau ym mhysgodfeydd cimwch Norwy, er enghraifft drwy ddefnyddio treillrwydi di-orchudd. Cytunodd y gwledydd i barhau i symud ymlaen gyda chyflwyno mesurau technegol gwell yn eu dyfroedd perthynol (13 ohonynt) ym Môr Iwerddon, gan ganolbwyntio ar leihau sgîl-ddal gwyniad Môr Iwerddon yn y bysgodfa cimwch Norwy. Iii. Mae'r cynrychiolwyr wedi dechrau gweithio ar fframwaith gwerthuso a gwaith casglu data ar y cyd ar gyfer mesurau technegol ym Môr Iwerddon drwy'r SCF. Cytunodd y gwledydd i barhau gyda'r gwaith hwn yn 2025 er mwyn cynorthwyo adferiad y stoc.

[36] ICES. 2025a. Gweithdy Meincnodi ar Stociau Detholus ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd (WKBNSCS). Adroddiadau Gwyddonol ICES, Adroddiad https://doi.org/10.17895/ices.pub.28715180.v1

DRAFT

Un pryder parhaus wedi'i godi gan y diwydiant yw'r rhwystrau cyfreithiol a ffisegol i weithredu TCM newydd. Ni chyfyngir TCM i gêr pysgota ac mae dulliau ychwanegol fel Monitro Electronig o Bell (REM) yn cynnig rhai dulliau rheoli.

Tynnwyd sylw at bysgota hamdden yn yr asesiadau diweddar o'r ddwy stoc a gallai fod angen mwy o dystiolaeth i wneud penderfyniadau rheoli yn y dyfodol. Credir bod pysgota hamdden wedi cymryd tua 10% o'r holl wyniad môr a ddaliwyd yn 2024.

Mae ICES wedi adnabod nifer o drafferthion gydag asesu hadog, gyda'r cyngor wedi'i ddiraddio i Gategori 5 a chyngor wedi'i roi ar Ddull Cyngor Rhagofalus yn unol ag adran 6(4). Mae hyn yn golygu nad oes digon o dystiolaeth i asesu'r MSY ac ni chredir bod y stoc yn cael ei physgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd.

Rhaid i'r FMP felly (yn unol â gofynion Adran 6(3) Deddf Pysgodfeydd 2020) nodi polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu lefelau'r stoc a chamau er mwyn gallu casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i asesu MSY. Mae'r broblem wedi cael sylw'n barod gan ICES ac aseswyr cenedlaethol. Bydd y camau gweithredu isod yn ceisio llenwi'r bwlch hwn ac yn dilyn y dull rhagofalus o reoli pysgodfeydd yn unol ag adran 6(4). Bydd y trafodaethau blynyddol o gyfleoedd pysgota'r DU hefyd yn ystyried y cyngor diweddaraf gan ICES wrth osod dalfeydd TAC blynyddol.

Mae'n debyg y bydd y cyngor gwyddonol ar gyfer y stoc yma'n parhau i fod yn seiliedig ar ddull Cyngor Rhagofalus ICES a'r trafferthion wrth wraidd yr asesiad yn cael sylw ym Meincnod arfaethedig 2028 ICES.

Mae lledod coch yn cael eu dal yn bennaf drwy sgîl-ddal di-darged mewn pysgodfeydd lledod chwithig ym Môr Iwerddon, felly cynhwysir polisïau isod er mwyn deall problemau sgîl-ddal a thaflu'n well, a datblygu mesurau i leihau'r pwysau ar y stoc yn y dyfodol.

Fel y nodwn mewn adrannau blaenorol, y bysgodfa fwyaf helaeth ym Môr Iwerddon yw pysgodfa cimwch Norwy GI, gan ddal yr holl rywogaethau yn y FMP hwn i raddau. Nid dyma'r unig bysgodfa, mae'r bysgodfa treillrwydi sy'n targedu lledod chwithig a choch, a'r bysgodfa targedu pysgod gwynion gyfyngedig, i gyd yn dal y rhywogaethau hyn i raddau.

Cyngor ICES yw y dylid rheoli cimwch Norwy ar sail yr un ardal ofodol ag ardal asesu a chyngor ICES, h.y. bod y gweithgareddau pysgota'n gyson â'r ddalfa sydd ar gael ym mhob ardal stoc, neu Uned Weithredol (FU), a aseswyd. I gefnogi pysgota cimwch Norwy'n gynaliadwy, dylid datblygu rhagofalon priodol ac ystyried eu defnyddio i atal gor-bysgota a disbyddu'r stoc ar lefel FU gan ddibynnu ar ddatblygiad y stoc.

## Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn

### Yn benodol ar gyfer penfras, gwyniad môr a hadog

Cam Gweithredu 2.1 Parhau i leihau a lle bo'n bosib osgoi dal penfras, gwyniad môr a hadog drwy ddefnyddio mesurau TCM wedi eu profi.

Cam Gweithredu 2.2 Parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau TCM i ddal llai o'r stociau hyn, a llai o stociau eraill dieisiau, drwy raglenni fel Rhaglen Treialon Gêr GI ac ymrwymiadau rhwng y DU / UE.

Cam Gweithredu 2.3 Ystyried camau priodol i gasglu tystiolaeth o ddalfeydd hamdden.

Cam Gweithredu 2.4 Gwneud ymchwil berthnasol i helpu i werthuso stociau a datblygu camau gweithredu fel bo angen.

Cam Gweithredu 2.5 Cefnogi'r gwaith o werthuso a datblygu gêr detholus yn barhaus i leihau dalfeydd dieisiau.

Cam Gweithredu 2.6 I ddechrau, gallai REM gael ei dreialu gan DAERA fel rhan o brosiect ymchwil gyda nifer fach o gychod.

### Yn benodol ar gyfer hadog yn unig

Cam Gweithredu 2.7 Cefnogi ICES i roi sylw i wendidau yn y data a bylchau yn y dystiolaeth – yn benodol

- Adfer a sefydlogi ymdrechion arolwg;
- Gwerthuso dulliau modelu amgen (gan gynnwys dulliau Categori 2 a 3 gyda data prin ar sail arolwg), a
- Sicrhau gwaith dogfennol llawn a dulliau a mewnbynnau data tryloyw.

Cam gweithredu 2.8 Defnyddio dull rhagofalus i osod dalfeydd TAC, gan ddilyn yr egwyddorion yn y JFS nes y bydd digon o dystiolaeth ar gael i wneud asesiad cadarn.

Cam Gweithredu 2.9 Parhau i weithio gyda'r UE er mwyn parhau i gynaeafu'r stoc yn gynaliadwy drwy drafodaethau rhyngwladol.

### Yn benodol ar gyfer lledod coch

Cam Gweithredu 2.10 Datblygu'r dystiolaeth o sgîl-ddal lledod coch a thaflu o ganlyniad i hynny.

Cam Gweithredu 2.11 Ystyried pa fesurau i'w cymryd i daflu llai o ledod coch a chynyddu goroesi ar ôl taflu.

### Yn benodol ar gyfer cimwch Norwy

Cam Gweithredu 2.12 Cyflawni gwerthusiad opsiynau ar gyfer rheoli unedau gweithredol (FU) cimwch Norwy i gefnogi eu hadferiad. Bydd

DRAFT

| | |
|---|---|
| | y gwerthusiad yn asesu'r dystiolaeth fiolegol, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol gan gynnwys effeithiau ar hyfywedd y fflyd, patrymau pysgota, risg dadleoli, costau gweithredol, allyriadau, a chymunedau arfordirol, ynghyd â chostau, budd a pha mor ymarferol i'w darparu fyddai'r gwahanol opsiynau. |
| Cam Gweithredu 2.13 | Ystyried opsiynau, lle bo'r dystiolaeth wyddonol ac economaidd-gymdeithasol briodol yn eu cefnogi, ar gyfer gosod cyfyngiadau a phwyntiau cyfeiriol MSY ar gyfer biomas ac ymdrechion pysgota ar lefel stoc (ar gyfer unedau FU ac ardaloedd y tu allan iddynt) a'u mabwysiadu lle bo'n briodol a'r dystiolaeth wyddonol yn eu cefnogi. |
| Cam Gweithredu 2.14 | Fel rhan o werthuso'r opsiynau, ystyried a ellid datblygu strategaeth gynaeafu briodol a dulliau rheoli ategol i'w defnyddio ar lefel unedau FU pe bai angen, ynghyd â mesurau addas y gellid eu haddasu i bob FU, a allai helpu i gefnogi adferiad a bod ar gael i'w defnyddio mewn sefyllfa lle y byddai'r stoc wedi disbyddu neu senario lle y gallai'r stoc chwalu'n llwyr yn y dyfodol. Wrth ddatblygu'r mesurau hyn, dylid gwerthuso o dan ba amgylchiadau y gallai mesurau rheoli cwotâu gael eu defnyddio, ac ystyried pa fesurau ddylai'r rhain fod. |
| Cam gweithredu 2.15 | Ymgynghori, fel bo angen, ar unrhyw opsiynau posib ar gyfer rheoli unedau FU gan ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y gwerthusiad i oleuo'r broses o asesu effeithiau biolegol, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol, a pha mor briodol fyddai gwahanol ddulliau rheoli, cyn gwneud unrhyw benderfyniad i'w datblygu neu weithredu ymhellach. |

DRAFT

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

- Yr amcan tystiolaeth wyddonol
- Yr amcan sgîl-ddal
- Yr amcan mynediad cyfartal
- Yr amcan cynaliadwyedd

## Nod Polisi 3: Cefnogi gwerthusiad o effaith datblygiadau eraill a fyddai'n effeithio ar gynefinoedd morol ar stociau pysgod a fflydoedd pysgota

### Rhesymeg

Nid pysgota yw’r unig weithgaredd yn yr amgylchedd morol, mae gwahanol fuddiannau a phenderfyniadau rheoli mewn awdurdodaethau eraill i gyd yn cyfrannu at wasgfa ofodol, gan arwain at golli dyfroedd pysgota neu fwy o ymdrech o ganlyniad i ddadleoli, yn ogystal ag effeithiau anuniongyrchol ar ardaloedd a stociau pysgota.

Ar gyfer y dull ecosystem[37] rhaid cadw’r pwysau cyfunol oddi wrth weithgareddau dynol ar lefel sy’n gydnaws ag ennill GES. Nid pysgota yw’r unig beth sy’n digwydd yn yr amgylchedd morol ac mae gweithgareddau eraill yn effeithio ar yr ecosystem ac ar bysgota. Rhaid i fesurau cynllunio a rheoli trwyddedu morol y DU roi sylw i (a chofnodi) barn y diwydiannau pysgota wrth wneud penderfyniadau ac ystyried yr effaith ar bysgota ac ar ddyfroedd silio a meithrinfa.

Ceisiwn gefnogi dull seiliedig ar dystiolaeth drwy sicrhau, cyn belled â phosib, bod data cyflawn a chadarn ar gael i sectorau eraill sy’n effeithio ar bysgodfeydd a chynefinoedd morol.

### Camau gweithredu i gyflawni’r nod polisi hwn

Cam Gweithredu 3.1 Darparu tystiolaeth a gwybodaeth am weithgareddau pysgota i ategu penderfyniadau rheoli eraill yn yr amgylchedd morol.

Cam Gweithredu 3.2 Cydweithredu â’r diwydiant i adnabod pryderon sydd ar y gorwel, a helpu i fynd i’r afael â bylchau tystiolaeth lle bo’n bosib.

Cam Gweithredu 3.3 Cefnogi penderfyniadau sy’n effeithio ar weithgareddau pysgota drwy roi mynediad agored i’r dystiolaeth berthnasol.

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

- Yr amcan tystiolaeth wyddonol
- Yr amcan cynaliadwyedd

## Nod Polisi 4: Cefnogi dull seiliedig ar ecosystem o reoli pysgota’n gynaliadwy drwy leihau effaith pysgodfeydd dyfnforol Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol

### Rhesymeg

Mae’r JFS yn gwneud ymrwymiad i reoli pysgota mewn cyd-destun ecosystem. Mae’r Ddeddf yn diffinio dull seiliedig ar ecosystem fel ‘dull sydd (a) yn sicrhau bod pwysau cyfunol gweithgareddau dynol yn cael eu cadw ar lefel sy’n gydnaws ag ennill GES o

[37] Yn ôl y diffiniad yn Neddf Pysgodfeydd 2020

DRAFT

fewn ystyr Rheoliadau Strategaeth Forol 2010, a (b) sydd ddim yn effeithio ar gapasiti ecosystemau morol i ymateb i newidiadau dynol.'

Mae pob math o bysgota'n cael effaith ar yr amgylchedd morol ac ecosystemau morol i wahanol raddau, p'un ai drwy godi rhywogaethau pysgod targed o'r môr, sgîl-ddal pysgod di-darged neu rywogaethau morol eraill yn ddamweiniol, neu wrthdaro â gwely'r môr.

Mae deall a lleihau'r effeithiau hyn yn rhan o ddull seiliedig ar ecosystem o weithredu. Er bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r effeithiau posib, mae graddfa ac effaith gweithgareddau pysgota'n destun trafod. Mae cyngor cadwraeth y byrddau SNCB a gafwyd i gefnogi'r FMP hwn wedi adnabod effeithiau a bylchau tystiolaeth sydd angen sylw. Mae angen tystiolaeth i oleuo unrhyw weithredu i leihau gwrthdaro dieisiau â rhywogaethau morol sensitif eraill, gan gynnwys adar môr, mamaliaid morol ac effeithiau dieisiau ar gynefinoedd benthig. Mae peth o'r gwaith hwn ar y gweill ond rydyn ni eisiau gwella'r dystiolaeth. Mae hyn yn cysylltu i waith sydd ar y gweill gan Raglen Lliniaru Sgîl-ddal y DU.

Mae'r prif bysgota ym Môr Iwerddon yn defnyddio technegau treillrwydo gwely'r môr. Mae cyngor cadwraeth wedi adnabod y gall treillrwydo gwely'r môr gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd gwely'r môr a chynefinoedd benthig.

Mae'r risg o wrthdaro ag adar môr / mamaliaid morol yn dibynnu ar y gweithgaredd pysgota. Mae angen i ni ddeall y risgiau a pha mor aml y mae gwrthdaro neu gordeddu'n digwydd yn well.

Mae aflonyddwch a achosir gan arolygon pysgodfeydd annibynnol (h.y. casglu data yn y maes) yn broblem newydd sydd ond yn ddiweddar wedi'i hadrodd fel pryder mawr gyda'r twf mewn datblygiadau ORE ac AMG.

Mae arolygon yn hanfodol i reoli pysgodfeydd, bywyd gwyllt ac ecosystemau'n gynaliadwy. Mae'r data'n cael ei gasglu fel rhan o gyfres amser hirdymor i helpu i wneud asesiadau a rhoi cyngor rheoli cywir, cryno, amserol ar sail gwyddoniaeth i bysgodfeydd. Mae rhaglenni arolwg yn dibynnu ar ddulliau a ddyluniwyd yn wyddonol i samplo rhywogaethau o wahanol faint, ar wahanol adegau, mewn gwahanol leoliadau, amser a chynefin. Bydd peidio â pharhau i gasglu data'n cael effaith sylweddol ar reoli'r bysgodfa'n gynaliadwy.

## Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn

Cam Gweithredu 4.1 Cefnogi'r gwaith o gasglu data o dan Raglen Lliniaru Sgîl-Ddal y DU er mwyn deall y risg a pha mor aml y mae pysgota'n dod ar draws rhywogaethau sensitif yn well, a pha mor effeithiol yw'r mesurau lliniaru ac osgoi presennol; a gweithredu gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu adar môr a mamaliaid at

DRAFT

ffurflenni casglu data arsylwyr, gan gefnogi'r Strategaeth Cadwraeth Adar Môr a'i Chynllun Gweithredu cysylltiedig.

Cam Gweithredu 4.2 Adnabod a mabwysiadu cymhellion effeithiol fel bod pysgodfeydd yn gweithredu mesurau lliniaru sgîl-ddal a chordeddu. Hyn i gynnwys parhau i gefnogi'r gwaith o gasglu data a threialon drwy barhau ac ehangu rhaglenni sgîl-ddal (fel Rhaglen Monitro Sgîl-ddal (BMP) BMI y DU a *Clean Catch UK.*

Cam Gweithredu 4.3 Cydweithredu ar draws y DU i symud ymlaen gyda Rhaglen Fesurau (POM) Strategaeth Forol y DU, gan gynnwys rhoi sylw i sbwriel morol a sŵn.

Cam Gweithredu 4.4 Parhau i gymryd mesurau rheoli pysgota mewn ardaloedd AMG a chyflwyno mesurau ychwanegol fel bo angen. Gwerthuso effaith unrhyw fesurau rheoli ychwanegol posib a roddwyd yn eu lle ar gyfer ardaloedd AMG, gan adnabod effeithiau cronnus ar y diwydiant

Cam Gweithredu 4.5 Cefnogi a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i ystyried opsiynau gêr eraill i leihau effeithiau benthig lle bo angen, drwy raglenni fel Rhaglen Treialon Gêr Gogledd Iwerddon. Parhau i wella ein dealltwriaeth o effeithiau benthig yn y bysgodfa cimwch Norwy ac mewn pysgodfeydd dyfnforol eraill ym Môr Iwerddon.

Cam Gweithredu 4.6 Gweithio gyda'r gymuned ryngwladol i rannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd er mwyn cyfrannu at ddeall, lleihau a dileu sgîl-ddal a chordeddu'n fyd-eang.

Cam Gweithredu 4.7 Ystyried ymchwilio i sut y gellid ymgorffori dull seiliedig ar ecosystem o reoli pysgodfeydd yng nghynlluniau FMP Dyfnforol ar gyfer Môr Iwerddon yn y dyfodol a sut i'w cysoni â dulliau cymharol ar gyfer rhywogaethau eraill.

Cam Gweithredu 4.8 Yng Ngogledd Iwerddon, adolygu'r dulliau adrodd AFBI presennol i sicrhau bod data cadarn a chymharol ar gael ar gyfer pob math o bysgota. Parhau i gynnal cyswllt ag AFBI ac aseswyr eraill i roi sylw i unrhyw bryderon am gasglu data a chyflwyno cyngor gwyddonol.

Cam Gweithredu 4.9 Yng Nghymru, defnyddio asesiadau Asesu Gweithgareddau Pysgota yng Nghymru (AWFA) i adolygu effeithiau amgylcheddol posib arferion rheoli pysgodfeydd a newidiadau arfaethedig wedi eu cysylltu i'r FMP, ac ystyried camau lliniaru.

DRAFT

**Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd**

- Yr amcan ecosystem
- Yr amcan tystiolaeth wyddonol

## Nod Polisi 5: Cefnogi cynnydd tuag at bysgota cynaliadwy drwy wneud y mwyaf o unrhyw fudd economaidd a chymdeithasol.

### Rhesymeg

Fel rhan o'r amcan cynaliadwyedd, mae angen i bysgodfeydd ddarparu budd cymdeithasol ac economaidd i gymunedau arfordirol. Yn ôl Seafish[38] mae'r diwydiant yn wynebu costau sy'n cynyddu mwy na gwerth y pysgod sy'n cael eu dal. Yn y tymor hir mae hyn yn anghynaliadwy. Mae llawer o'r problemau sy'n achosi hyn y tu allan i reolaeth uniongyrchol y weinyddiaeth bysgota ond dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi'r sector pysgota i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Mae effeithiau ar hyfywedd y fflyd yn cynnwys prisiau marchnad gwael, cyfyngiadau mynediad (union ac anuniongyrchol), gwahanol ddulliau awdurdodaethol ac effaith datblygiadau morol eraill.

Mae cychod pysgota Gogledd Iwerddon yn cael eu heffeithio ymhellach gan fynediad at griw, ac mae'r rheolau mewnfudo presennol yn effeithio ar ddefnydd cynaliadwy o ddyfroedd pysgota a mynediad atynt. Mae angen mynediad at griw medrus, am brisiau cystadleuol. Yn y tymor hirach, hoffem annog pobl newydd i ymuno â'r diwydiant.

Yn y gorffennol, defnyddiodd awdurdodau pysgodfeydd fesurau ariannol i gefnogi'r diwydiant pysgota, i ddatblygu a darparu nodau economaidd a budd cymdeithasol hirdymor.

### Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn

| | |
|---|---|
| Cam Gweithredu 5.1 | Ystyried cymorth ariannol i annog y diwydiant i ddatblygu strategaethau i sicrhau bod cychod pysgota'n gweithredu mor effeithlon â phosib a chynnal arferion cynaliadwy ar yr un pryd. Gallai hyn gynnwys ystyried y posibilrwydd o awtomatiaeth, asesu'r budd i'r economi gylchol fel ennill y gwerth mwyaf o ddalfa bysgod a defnyddio sgîl-gynhyrchion, a chyflwyno mesurau arallgyfeirio i bysgodfeydd ychwanegol. Hefyd, ystyried |

[38] Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Môr Iwerddon: Crynodeb Tystiolaeth Seafish – yn y dogfennau ategol

DRAFT

cymorth ariannol i addasu gêr (gan gynnwys eithriadau) a chanllawiau tuag at adnoddau marchnata.

Cam Gweithredu 5.2 Annog y diwydiant i sefydlu rhaglenni ariannu sy'n gwella apêl swyddi yn y sector bwyd môr a helpu i sicrhau gweithlu domestig. Gallai hyn gynnwys mesurau i gefnogi rhai sy'n ymuno â'r diwydiant, gwella amodau gwaith (diogelwch, cyflogau a lles y criw), hybu elw o ddalfeydd a hyrwyddo cynhyrchion pysgod fel ffynonellau bwyd ansawdd uchel, carbon isel.

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

- Yr amcan budd cenedlaethol
- Yr amcan cynaliadwyedd

## Nod Polisi 6: Lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i newid hinsawdd.

### Rhesymeg

Yn unol ag amcan newid hinsawdd y Ddeddf Pysgodfeydd a'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Newid Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022, nod y FMP hwn yw lleihau neu osgoi effeithiau niweidiol pysgota ar yr hinsawdd a chefnogi'r diwydiant i addasu i newid amgylcheddol.

Mae amodau hinsawdd sy'n newid yn risg bosib i gynnal pysgodfeydd cynaliadwy ym Môr Iwerddon a chyflenwad o fwyd ansawdd uchel. Mae angen tystiolaeth gadarn ar reolwyr pysgodfeydd, gan gynnwys sut y mae allyriadau carbon o bysgota a newidiadau cyflenwad yn effeithio ar yr amgylchedd a chyfrannu at newid hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys effaith carbon glas a sut i'w reoli yn y dyfodol. Mae hefyd angen tystiolaeth o effaith debygol newid hinsawdd ar stociau pysgod a chyfleoedd pysgota i helpu i addasu i ecosystemau sy'n newid.

Mae ein dealltwriaeth o effaith pysgota ar yr hinsawdd ac effaith newid hinsawdd ar stociau pysgod, ecosystemau a chymunedau arfordirol yn parhau i esblygu. Mae angen tystiolaeth well arnom o:

- Sut i leihau allyriadau carbon o bysgota mewn ffordd gynaliadwy;
- Effeithiau tebygol newid hinsawdd ar ddosbarthiad stociau pysgod, cyfansoddiad maint, ardaloedd silio, cynhyrchu plancton, gweoedd bwyd a storfeydd carbon morol.

DRAFT

Mae pysgota'n ffynhonnell fwyd llawn protein yn erbyn dulliau cynhyrchu a allai fod yn garbon isel. Mae lleihau allyriadau tanwydd yn cael ei drafod a gallai fod angen gweithredu penodol oherwydd oed a chyflwr rhai fflydoedd.

### Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn

Cam Gweithredu 6.1 Ystyried sut i gasglu tystiolaeth darged ychwanegol sy'n berthnasol i Fôr Iwerddon a'r pysgota sy'n digwydd yno'n bresennol. Gallai hyn gynnwys effaith ar atafaelu carbon yn nyfroedd pysgota cimwch Norwy, a thystiolaeth o wrthdaro morol. Byddwn yn gwerthuso opsiynau posib, fel parhau i gasglu data OSPAR ar gyfer ICES, yn parhau i ofyn am gyngor perthnasol ac i ystyried opsiynau ar gyfer llenwi bylchau yn y data.

Cam Gweithredu 6.2 Ystyried camau gweithredu i gefnogi'r diwydiant i addasu i newid hinsawdd drwy ymchwil ac arloesi, gan gynnwys lliniaru allyriadau o gychod pysgota.

Cam Gweithredu 6.3 Gwerthuso ac ystyried cefnogi cyflwyno technoleg ac arferion newydd i ddatgarboneiddio'r fflyd a chryfhau ei gwydnwch, yn unol â'r cyllidebau carbon a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

- Yr amcan ecosystem
- Yr amcan newid hinsawdd

# Gweithredu, dangosyddion, monitro ac adolygu

## Gweithredu

Mae'r FMP hwn yn cyflwyno gweledigaeth a nodau ar gyfer pysgodfeydd dyfnforol Môr Iwerddon, ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r FMP hwn yn cynnig mesurau newydd ond nid yw'n eu gweithredu. Bydd camau gweithredu a mesurau'r FMP hwn yn cael eu dilyn gan gam gweithredu i adnabod yr opsiynau darparu ymhellach.

Gall yr opsiynau darparu gynnwys mesurau gwirfoddol, amodau trwydded, is-ddeddfau cenedlaethol a rhanbarthol, a rheoliadau statudol. Bydd y cam gweithredu

hwn yn adeiladu ar y dystiolaeth bresennol, unrhyw gamau wedi eu gweithredu wrth ddatblygu'r FMP a'r opsiynau a drafodwyd gyda rhanddeiliaid.

## Dangosyddion i fonitro effeithiolrwydd y cynllun

Dyma'r fersiwn gyntaf o'r FMP hwn ac mae'n cyflwyno'r camau cyntaf a'r weledigaeth fwy hirdymor sydd eu hangen i reoli pysgodfeydd Môr Iwerddon yn gynaliadwy. Bydd y cynlluniau hyn yn cymryd amser i'w datblygu a'u gweithredu, gan ddilyn dull addasol. Bydd y cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u gwella dros amser wrth gasglu mwy o dystiolaeth am reoli'r bysgodfa'n gynaliadwy, mewn cydweithrediad â'r sector pysgota a buddiannau ehangach.

Y dangosydd allweddol fydd iechyd pob stoc sy'n cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r cylch o bennu dalfeydd TAC. Mae asesiadau stoc ICES yn asesu sut y mae poblogaethau pysgod wedi newid dros amser ac effaith pwysau pysgota ar stociau. Rhoddir dangosyddion biolegol allweddol fel pwyntiau cyfeiriol, sy'n rhoi arwydd tuag at eu MSY, pwysau pysgota a SSB. Y dangosyddion posib i'w defnyddio yw:

- Adfer pysgota'r stociau canlynol i lefelau cynaliadwy; y stoc cimwch Norwy yn FU15, lleden goch Môr Iwerddon (ple.27.7.a);
- Cynnal biomas y stoc silio ar gyfer stociau a bysgotir yn gynaliadwy, ar gyfer stociau hadog Môr Iwerddon (had. 27.7a), lleden chwithig Môr Iwerddon (Sol.27.2.a), a chimwch Norwy yn FU14;
- Lleihau marwolaethau o bysgota ac adfer biomas y stoc silio ar gyfer stoc gwyniad Môr Iwerddon (whg. 27.7.a);
- Adfer biomas y stoc silio ar gyfer stoc penfras Môr Iwerddon. (cod.27.7.a)

Datblygir dangosyddion gweithredu penodol eraill wrth weithredu'r cynlluniau.

Bydd gwerthuso gwyddonol ychwanegol hefyd yn goleuo unrhyw adolygiad, er enghraifft adroddiad cynaliadwyedd stociau CEFAS[39].

## Adolygu

Fel y noda'r Ddeddf, rhaid adolygu'r FMP hwn pan fo'n briodol a phob 6 mlynedd o leiaf. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu sut y perfformiodd y FMP o ran cwrdd ag amcanion y Ddeddf. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu fersiynau pellach o'r FMP. Gellir adolygu'n gynt, er enghraifft os yw dangosydd yn adnabod bod angen adolygu. Yr awdurdodau polisi pysgodfeydd sy'n penderfynu a wneir adolygiad cynt.

[39] Asesu cynaliadwyedd cyfyngiadau dalfeydd pysgodfeydd a negodwyd ar gyfer y DU yn 2024 - GOV.UK

Bydd yr adroddiad fydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi pob 3 blynedd yn unol â'r JFS o dan adran 11 y Ddeddf hefyd yn disgrifio i ba raddau y mae polisïau'r FMP hwn wedi cael eu gweithredu ac wedi effeithio ar lefelau'r stociau perthnasol yn y FMP.

DRAFT